



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Royal College of Occupational Therapists
Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol



Therapyddion galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol: **Fframwaith dysgu a datblygu**

Tachwedd 2017



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Manylion cyswilt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru



@GofCymdeithasol

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

ISBN: 978-1-911463-57-3

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Rhagair



Rhagair gan

Rebecca Evans,
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a
Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn gweddwid y ffordd mae gofal a chymorth yn cael eu darparu i bobl Cymru. Mae'n canolbwyntio ar hybu llesiant pobl fel unigolion, fel rhan o deulu ac fel rhan o'u cymuned. Rydw i'n croesawu'r pwyslais hwn ar atal ac ymyrraeth gynnar, a'r pwyslais y mae'r Ddeddf yn ei roi ar sicrhau bod gan bobl fwy o ddylanwad a rheolaeth dros eu gofal.

Mae gan therapyddion galwedigaethol ran holl bwysig yn y gwaith o weddwid gofal cymdeithasol. Mae pobl o bob oed sy'n sâl, yn anabl, neu sydd ag anghenion gofal a chymorth yn credu bod cyfraniad penodol therapyddion galwedigaethol yn werthfawr o ran eu hadferiad, gan eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd. Mae eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn hanfodol mewn perthynas â moderneiddio'r gwasanaethau hyn, ac yn adnodd gwerthfawr ar gyfer pobl a chydweithwyr. Mae gan therapyddion galwedigaethol ymrwymiad i wella gwasanaethau cymorth i bobl, a datblygu gwell sail dystiolaeth fel sail i'w hymyriadau. Mae'r fframwaith dysgu a datblygu hwn ar gyfer therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn gyfraniad pwysig at gyrraedd y nod hwnnw.

Nid diben y fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer therapyddion galwedigaethol yw bod yn lasbrint manwl ar gyfer dyfodol unigolion, yn hytrach mae'n nodi ein huchelgeisiau a'n disgwyliadau ar gyfer y gweithlu therapyddion galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol. Bydd dilyn yr egwyddorion sydd yn y fframwaith hwn yn sicrhau manteision go iawn ar gyfer pobl Cymru drwy wella canlyniadau, a datblygu sgiliau ac ymarfer gweithio'r gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r gwasanaethau hynny.

Mae'n bleser gennyf gymeradwyo'r fframwaith hwn, a'r disgwyl yw y bydd yn ddogfen gyfeirio allweddol ar gyfer therapyddion galwedigaethol, rheolwyr a chyfarwyddwr yn y maes gofal cymdeithasol. Mae'n cyfrannu at yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn y gweithlu gofal cymdeithasol, drwy gysylltu anghenion gyrfa unigol â gofynion gweithlu sefydliadau ac mae'n disgrifio datblygiad therapyddion galwedigaethol a'u rôl gynyddol fel rhan o dimau amlddisgyblaethol sy'n sbarduno gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn cefnogi ac yn annog eu harweinyddiaeth wrth iddynt gael pobl i feddwl yn uchelgeisiol a herio tybiaethau am y ffordd y dylid darparu therapi galwedigaethol yn y maes gofal cymdeithasol.

Diben a strwythur

Diben

Diben y fframwaith hwn yw rhoi canllawiau i therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn hwyluso datblygiad proffesiynol, clinigol a rheoli therapyddion galwedigaethol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o sgiliau a bod gwasanaethau'n effeithiol. Bydd yn helpu i ddiwallu anghenion gyrfa therapyddion galwedigaethol a llywio gyrfaedd therapyddion galwedigaethol yn y dyfodol yng Nghymru, er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith y gweithlu therapyddion galwedigaethol wrth iddynt ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n cyd-fynd â fframwaith ôl-gofrestru Cynghrair Proffesiynau Perthynol i Iechyd y GIG hefyd er mwyn sicrhau y gellir symud i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy integredig.

Strwythur y fframwaith

Mae'r fframwaith wedi'i rannu'n ddwy brif ran: **lefelau ymarfer** a **cholofnau ymarfer**.


Lefelau ymarfer: Mae'r fframwaith hwn ar gyfer datblygu gyrfaedd yn seiliedig ar lefelau 5-9 y fframwaith gyrfaedd ar gyfer iechyd (Sgiliau Iechyd, 2006; Llywodraeth yr Alban, 2009). Bydd yn helpu gyda hyblygrwydd y gweithlu, ac yn darparu dull cyffredin o fapio portffolios cymhwysedd gweithwyr cyflogedig, ac i nodi lle gellir trosglwyddo i swyddi eraill. Mae hyn yn sicrhau y gellir datblygu mewn cyfeiriadau na nodwyd yn flaenorol drwy lwybrau traddodiadol a gall arwain at ddatblygiad i'r lefel nesaf cyn cyrraedd band cyflog uwch, neu heb ei gyrraedd hyd yn oed. Mae **trosolwg** pob lefel yn rhoi disgrifiad o'r nodweddion a ddisgwylir ac yn awgrymu lefelau'r cymwysterau y dylid eu cyflawni er mwyn ategu'r datblygiad. Mae pob lefel ymarfer yn adeiladu ar y lefel flaenorol er mwyn atal ailadrodd.

Colofnau ymarfer

Dyma'r pedair colofn ymarfer:

- Ymarfer proffesiynol
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Addysg (hwyluso dysgu)
- Tystiolaeth, ymchwil a datblygu

Bydd cyfran ac arbenigedd y colofnau'n amrywio yn ôl y rôl a'r lefel.



Mae pob colofn ymarfer wedi'i rhannu'n **agweddau ar ymarfer**:

Colofn ymarfer	Agweddau ar ymarfer
Ymarfer proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod galwedigaeth yn ganolog i ymarfer • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau
Arweinyddiaeth a rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi, monitro a gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol
Addysg (hwyluso dysgu)	<ul style="list-style-type: none"> • Addysgu, mentora, goruchwyllo a/neu asesu eraill • Hwyluso dysgu ymarfer • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu'r amgylchedd dysgu
Tystiolaeth, ymchwil a datblygu	<ul style="list-style-type: none"> • Dylanwadu ar yr agenda economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol ehangach • Creu, defnyddio a/neu gyfieithu tystiolaeth i lywio ymarfer • Cynllunio, gweithredu, gwerthuso a lledaenu gwaith ymchwil • Troi tystiolaeth yn ymarfer

Yn y fframwaith hwn, mae hyd a lled y cyfrifoldeb, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad allweddol, a'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad addysgol a phroffesiynol wedi'u hamlinellu ar gyfer pob agwedd ar ymarfer.

Ar gyfer therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio ar unrhyw un o lefelau'r fframwaith hwn, mae'n bwysig bod eu rôl yn cynnwys elfennau o'r holl golofnau ymarfer yn seiliedig ar yr agweddau ar ymarfer. Wrth i yrfa unigolyn ddatblygu, bydd cyfran eu rôl ym mhob colofn yn newid. Felly bydd angen i sefydliadau a rheolwyr ystyried sut y gellir datblygu unigolion ar draws y pedair colofn ac felly hwyluso datblygiad llwybrau gyrfa i ffwrdd o'r llwybrau mwy traddodiadol a thuag at feysydd ymarfer y dyfodol a fydd yn diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Manteision

Bydd y fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer therapyddion galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol yn fanteisiol i'r sefydliad a'i weithwyr cyflogedig. Mae tystiolaeth yn dangos y cysylltiad rhwng ymgysylltu â staff, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad, ac ansawdd gofal a chanlyniadau gwell. Mae'n rhaid iddo gyd-fynd â diwylliant y sefydliadau, a gosod disgwyliadau realistig ar weithwyr cyflogedig, a helpu unigolion i ddatblygu eu cymwyseddau gofynnol ar gyfer ymarfer diogel. Bydd y fframwaith yn:

- cynorthwyo therapyddion galwedigaethol wrth ddatblygu a dangos tystiolaeth bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymateb i anghenion sy'n esblygu mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol pobl
 - amlinellu datblygiad proffesiynol sy'n sicrhau ymarfer cyfoes, effeithiol a diogel waeth lle darperir y gofal
 - cefnogi datblygiad therapyddion galwedigaethol ar draws y pedair colofn
 - darparu canllawiau cadarn a chyson ar gyfer addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod adnoddau yn y dyfodol yn cael eu targedu a'u defnyddio'n unol â'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol darbodus, ac yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol yn fwy effeithiol
 - helpu sefydliadau i ddeall lle mae doniau'r gweithlu wedi'u crynhoi: i ba raddau y maen nhw wedi'u paratoi'n ddigonol, neu heb eu paratoi'n ddigonol, i ddiwallu anghenion ac ymateb i heriau'r dyfodol
 - sicrhau bod y gwaith o reoli doniau a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn cael ei gyflawni i'r eithaf
- dangos sut i ddatblygu a chadw therapyddion galwedigaethol, gan wella perfformiad y sefydliad yr un pryd
 - helpu rheolwyr wrth iddynt geisio cynllunio'r gweithlu er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol
 - canfod ffyrdd gwell o fynegi gofynion addysg unigolion yn lleol
 - canfod ffyrdd gwell o fynegi datblygiadau a newidiadau'r gweithlu cyfan sy'n gallu llywio prosesau cynllunio cydweithwyr mewn perthynas â chynlluniau presennol, a helpu i lywio cynlluniau newydd ar gyfer gwasanaethau a bod yn sail iddynt (e.e. sicrhau bod cynlluniau'r gweithlu yn cael eu hintegreiddio).

Alinio fframwaith

Dylid ystyried gyrfa therapydd galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol yn gontinwrm o'r adeg y mae unigolyn yn ymuno ag addysg cyn-gofrestru i'r adeg y mae unigolyn yn gadael y proffesiwn. Felly mae gyrfaoedd Proffesiynau Perthynol i lechyd ôl-gofrestru yn adeiladu ar y paratodau cychwynnol sy'n arwain at gofrestru ac ni ddylid ei ystyried yn rhywbeth ar wahân.

Mae'r fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer therapyddion galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol yn cysylltu anghenion gyrfa unigol â gofynion gweithlu sefydliadau ac mae'n cynorthwyo gyda'r agenda integreiddio drwy ddarparu iaith gyffredin y gellir ei defnyddio er mwyn ei gysylltu â'r fframwaith ôl-gofrestru ar gyfer Proffesiynol Perthynol i lechyd yn y GIG (LIC/GIG, 2016).

Mae'n cyd-fynd yn rheoleiddiol â'r Cyngor Proffesiynau lechyd a Gofal (HCPC) drwy safonau datblygiad proffesiynol parhaus a safonau medrusrwydd, gan gydnabod mai cwmpas yr ymarfer yw maes neu feysydd y proffesiwn y mae gennych y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i'w ymarfer yn gyfreithiol, yn ddiogel ac yn effeithiol, mewn ffordd sy'n bodloni safonau HCPC ac nad yw'n peri unrhyw berygl i'r cyhoedd neu'r sawl sydd wedi cofrestru.

Mae'n gysylltiedig â'r Fframwaith Datblygu Gyrfaoedd hefyd a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol, gan alluogi'r unigolyn i ddatblygu ei yrfa ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r sector tai cyfan, ac ar draws cyflogwyr amrywiol. Mae'r pwyslais a geir yn y Fframwaith Datblygu Gyrfaoedd ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth yn bresennol yn y ddogfen hon gan alluogi therapyddion galwedigaethol i gysylltu Safonau Ymarfer a Chôd Ymddygiad a Moeseg Proffesiynol eu corff proffesiynol â'u datblygiad proffesiynol a chynllunio eu gyrfa.


Dylid nodi nad yw naw lefel y fframwaith gyrfaoedd yn cysylltu'n awtomatig ag unrhyw fandiau cyflog penodol yn y gwasanaethau cymdeithasol na'r GIG. Cyflwynir y fframwaith gyrfaoedd fel adnodd galluogi sy'n darparu iaith a themau cyffredin er mwyn cefnogi datblygiad gyrfa gan ei fod yn nodi'r disgwyliadau ym mhob lefel a'r cymwyseddau a ddisgwylir gan ddeilydd y swydd.

Terminoleg a diffiniad

Awgrymwyd mai term eang yn unig yw ymarfer uwch sy'n cyfeirio at bob rôl ymarfer ar lefel sy'n uwch nag ymarfer cychwynnol, a'i fod yn cwmpasu rolau 'arbenigol' ac 'ymgynghorol' hefyd. Nid yw'r dull hwn yn fuddiol gan mai ychydig iawn y mae'n ei ychwanegu o ran eglurder a chysondeb, a gall ddrysau gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ymhellach, ac o ganlyniad mae'n cyfaddawdu ar brosesau llywodraethu mewn perthynas â disgwyliadau ymarferwyr a'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

Mae ymarferwyr sy'n gweithio gyda theitl 'arbenigol' yn cyfrannu at ddarpariaeth iechyd GIG Cymru mewn ffyrdd pwysig. Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes dealltwriaeth gyffredin o'r rôl 'arbenigol' ymysg rhanddeiliaid, a gall hyn leihau effaith ac effeithiolrwydd rolau o'r fath. Mae materion terminoleg sy'n gysylltiedig â theitlau 'arbenigol' ar gyfer ymarfer yn parhau i greu anawsterau a dryswch i'r cyhoedd, arweinwyr gwasanaethau a'r ymarferwyr eu hunain.

Mae trafodaethau helaeth wedi canolbwyntio ar y cwestiwn a yw ymarfer 'arbenigol' ar lefel is nag ymarfer 'uwch'. Derbynnir yn gynyddol ac yn eang y dylid ystyried 'arbenigol' yn un pegwn ar y continwwm 'arbenigol – cyffredinol' (fel y dangosir gyferbin) yn hytrach nag ar y continwwm datblygiad o'r ymarferydd newydd i'r arbenigwr. Mae'r dull hwn yn diffinio ymarfer 'arbenigol' yn ymarfer sy'n benodol i gyd-destun arbennig, boed yn grŵp cleientiaid, yn set sgiliau neu'n gyd-destun sefydliadol.



Dadleuir bod ymarfer 'uwch' yn gam penodol ar gontinwwm rhwng ymarfer 'nofis' ac ymarfer 'arbennig'. Nodwedd proffil y rôl 'uwch' yw lefelau uchel o sgiliau clinigol ac ymchwil, cymhwysedd, gwneud penderfyniadau'n annibynnol, ynghyd ag elfen o arweinyddiaeth ac addysg yn y rôl sy'n adlewyrchu meincnod penodol ar yr ysgol datblygu gyrfaf fel y gwelir yn y Fframwaith Gyrfaoedd ar gyfer lechyd.

Mae Fframwaith Gyrfaoedd y GIG yn gwahaniaethu rhwng lefel ymarferwyr a lefel uwch drwy ddefnyddio'r term 'uwch'. Mae hyn yn helpu i hepgor yr amwysedd ynglŷn â'r teitl arbenigol. Am y rheswm hwn, defnyddir y term 'uwch' yn y fframwaith hwn wrth ddisgrifio lefelau o ddatblygiad sydd wedi'u meincnodi, a defnyddir y term 'arbenigol' os oes angen diffinio mathau o rolau sy'n canolbwyntio ar gyd-destun penodol. Nid yw hyn yn tynnu oddi wrth wybodaeth neu sgiliau 'arbenigol', ond mae'n cydnabod nad yw sgiliau o'r fath, ynddynt eu hunain, yn nodweddu lefel uwch o ymarfer.

Therapyddion galwedigaethol newydd gymhwyso

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 5

Swydd-ddisgrifiad cyffredinol

Fel ymarferydd newydd gymhwyso, byddai disgwyl i'r sawl sydd, yn y rôl hon, ymroi'n frwd i gyfnod cyfuno, er enghraifft fel hyfforddwr, ac yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn debygol o orfod ymwneud â materion codi a chario neu faterion anableded gyda lefelau priodol o gymorth.

Bydd y swydd yn cynnwys:

- galluogi pobl i wneud y pethau hyn maen nhw'n dymuno, angen neu y disgwylir iddynt eu gwneud er mwyn cefnogi eu llesiant
- cynnal asesiadau cyfannol, gan weithio'n annibynnol gyda llwyth gwaith cymysg na ellir ei ragweld, a allai gynnwys gweithio'n unigol yng nghartrefi pobl fel rhan o dimau cymunedol
- dangos gallu i resymu'n glinigol a phriodol a'r gallu i ddadansoddi tasgau
- cynllunio canlyniadau galwedigaethol gydag unigolyn, darparu'r detholiad llawn o ymyriadau 'arferol'. Byddai'r rhain yn unigol ac yn benodol i'r unigolyn ond nid yn gymhleth/arbenigol iawn
- meddu ar ystod gynhwysfawr o wybodaeth a dealltwriaeth glir o ffiniau eu sgiliau
- meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr a chymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r meini prawf sy'n effeithio ar eu gwaith
- ymateb i amrywiaeth o atgyfeiriadau arferol a rheoli llwyth achosion amrywiol, a allai gynnwys mynediad i'r cartref, ymolchi, cynnal asesiadau gallu a risg, diogelu, diogelu data, ac ati, gyda lefelau priodol o gymorth.

Ar ôl cyfnod priodol o gyfuno gwybodaeth ac ymarfer a'i droi'n profiad, gellir ychwanegu'r canlynol:

- hyfforddi gofalmwyr a gofalmwyr anffurfiol gyda lefelau priodol o gymorth
- asesu, cynllunio, ysgrifennu ac adolygu pecynnau gofal, cynllunio nodau ym maes ail-alluogi
- cynghori ar Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), addasiadau i gartrefi am oes ac addasiadau amgylcheddol
- derbyn myfyrwyr ar leoliad i gyfuno eu sgiliau graddedig newydd.

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 5

Ymarferwyr cofrestredig sy'n cyfuno profiad cyn-gofrestru a gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion/dinasyddion, ac sy'n paratoi ar gyfer gweithredu ar lefel uwch. Mae'r ymarferydd Lefel 5 ar daith o fod yn ymarferydd nofis, wrth gofrestru i ddechrau, i ymarferydd.

Bydd gan bobl sydd ar Lefel 5 wybodaeth gynhwysfawr, arbenigol, ffeithiol a damcaniaethol mewn maes gwaith ac ymwybyddiaeth o ffiniau'r wybodaeth honno. Gallant ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau'n greadigol, gwneud penderfyniadau sy'n gofyn am ddadansoddi a dehongli, a chyfrannu'n weithredol at ddatblygiad gwasanaethau a hunanddatblygiad. Gall bod ganddynt gyfrifoldeb o bosibl dros oruchwylio staff neu hyfforddiant (©Sgiliau Iechyd).

Mae gan ymarferwyr wybodaeth sylfaenol eang mewn maes ymarfer penodol, sy'n eu galluogi i weithio'n annibynnol i raddau helaeth iawn. Gall fod ganddynt gyfrifoldebau rheoli llinell ond ni fyddant yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Maen nhw'n mynd ati'n ddiwyd i ddefnyddio canfyddiadau ymchwil er mwyn gwella eu hymarfer ac fel sail iddo. Mae ymarferydd yn gymwys yn ei faes ymarfer a bydd yn chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a gynigir ganddo (Sgiliau Iechyd).

Colofn ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Parhau i ddatblygu cymhwysedd wrth ddiwallu anghenion cyfannol a galwedigaethol dinasyddion a'r cyhoedd yn ehangach</p> <p>Defnyddio gwybodaeth gynhwysfawr, arbenigol, ffeithiol a damcaniaethol i ddatrys problemau, ac yn ymwybodol o gyfyngiadau eu gwybodaeth sylfaenol</p> <p>Gwerthuso ei ymarfer ei hun a nodi ei ddatblygiad ei hun</p> <p>Meddu ar amrywiaeth gynhwysfawr o sgiliau gwybyddol ac ymarferol sy'n ofynnol i ddatblygu atebion creadigol i broblemau haniaethol</p> <p>Gwneud penderfyniadau drwy ddadansoddi, dehongli a chymharu dewisiadau</p> <p>Asesu risgiau a gweithredu ar ganfyddiadau er mwyn sicrhau diogelwch dinasyddion</p> <p>Gweithio'n annibynnol o fewn cwrpas yr ymarfer er mwyn arfer crebwyll ynglŷn â gweithredoedd, gan dderbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol</p> <p>Cyfuno ei wybodaeth, ei sgiliau a'i agweddau ei hun drwy fentora ac ymarfer adlewyrch</p>	<p>Rheoli llwyth achosion dynodedig yn effeithiol ar gyfer maes ymarfer wedi'i ddirprwyo</p> <p>Cyflawni amrywiaeth eang o weithdrefnau clinigol, technegol, rheoli neu wyddonol</p> <p>Adolygu a datblygu perfformiad ei hun ac eraill</p> <p>Rhannu gwybodaeth yn effeithiol a chryno ar gyfer sefyllfaoedd a chyd-destunau amrywiol er mwyn sicrhau diogelwch dinasyddion a gofal parhaus</p> <p>Datblygu cysylltiadau effeithiol er mwyn casglu gwybodaeth a darparu gofal mewn partneriaeth â dinasyddion a gofalywr</p> <p>Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau wrth wneud penderfyniadau, gan gael eich arwain yn ôl yr angen gan gydweithwyr uwch mewn perthynas â rheoli a dirprwyo i eraill</p>	<p>Dangos ymwybyddiaeth o'i werthoedd a'i gredoau ei hun</p> <p>Hwyluso gweithgareddau sy'n gwella iechyd a newid ymddygiad</p> <p>Hwyluso rhannu perchnogaeth o'r broses o wneud penderfyniadau a chynorthwyo i ddarparu gofal</p> <p>Cydnabod pwysigrwydd galluogi pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy</p> <p>Asesu sefyllfaoedd a chyfrannu at y broses o nodi achos sylfaenol y broblem dan sylw</p> <p>Datblygu a gweithredu sgiliau adlewyrchu a dangos tystiolaeth o newid ymarfer er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion, y gwasanaeth, y proffesiwn neu'r sefydliad</p> <p>Tystiolaeth o ddefnyddio a datblygu parhaus o sgiliau ac ymddygiad sy'n ymwneud ag urddas, tosturi a pharch ym mhob agwedd ar ofal ac wrth ryngweithio ag eraill</p> <p>Meddwl yn feirniadol, a dadansoddi a gwerthuso wrth wneud dyfarniadau clinigol</p>	<p>Dysgu cyfunol</p> <p>Bydd wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant achrededig ar gyfer goruchwylio myfyrwyr</p> <p>Cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion hyfforddi gorfodol</p> <p>Diwallu anghenion ail-gofrestru proffesiynol</p> <p>Fframweithiau cymhwysedd proffesiynol</p> <p>Codau ymddygiad proffesiynol</p> <p>Cysgodi</p>

Colofn ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol 	<p>Gweithredu fel model rôl cadarnhaol</p> <p>Hybu iechyd a llesiant da</p> <p>Gweithio'n annibynnol, cynllunio, trefnu a blaenoriaethu ei waith, ei weithgareddau a thasgau mwy cymhleth</p> <p>Yn gallu gweithio'n effeithiol mewn timau ac yn deall rolau aelodau eraill y tîm</p> <p>Yn gallu cyfathrebu'n glir ac effeithiol, a chyfleu materion proffesiynol cymhleth yn eglur</p> <p>Cyfuno ei berfformiad ei hun a chyfrannu'n effeithiol i'r broses o ddarparu gwasanaethau</p> <p>Nodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau y gellir cynnal neu wella ansawdd y gofal</p> <p>Cydnabod ei atebolrwydd ei hun i weithredu pan ddylid gwella perfformiad ac ymarfer ei hun ac eraill</p> <p>Datblygu a chynnal dulliau cyfathrebu â phobl am faterion anodd a/neu sefyllfaoedd anodd</p> <p>Adnabod arwyddion cynnar perfformiad gwael a chymryd camau priodol</p> <p>Cyfrannu'n rhagweithiol at nodau a threfniadaeth tîm</p> <p>Ymateb yn annibynnol a hyderus i sefyllfaoedd cymhleth, ansicr ac wedi'u cynllunio gan reoli ei hun ac eraill yn hyderus</p> <p>Gwydnwch</p>	<p>Cyfrannu'n weithredol at waith goruchwyllo ac arfarnu clinigol ei hun ac eraill e.e. gweithwyr cymorth</p> <p>Cyfrifoldeb i gyfrannu at weinyddu a rheoli prosesau a pholisïau maes gwaith neu adran</p> <p>Deall cysyniad sylfaenol arweinyddiaeth a dilynyddiaeth</p> <p>Yn gweithio'n annibynnol, ac mewn timau, er mwyn cydgysylltu, dirprwyo a goruchwyllo gofal ar gyfer grŵp dynodedig o unigolion</p> <p>Yn gweithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethol, gan fynd ati i gynnwys cyfraniad eraill a'i barchu</p> <p>Yn gyfrifol am agweddau ar effeithiolrwydd clinigol a rheoli adnoddau</p> <p>Nodi achosion pan fydd ef/hi neu gydweithwyr yn cael eu trin yn annerbyniol neu'n annheg a gweithredu er mwyn hysbysu cydweithwyr uwch</p> <p>Ymgymryd ag unrhyw waith gofynnol ar reoli newid</p> <p>Cymryd rhan yn y gwaith o fonitro effeithiolrwydd newidiadau a'u heffaith</p> <p>Meithrin rhwydweithiau proffesiynol, hyrwyddo prosesau cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau mewn perthynas â gwaith ac iechyd</p> <p>Gweithio o fewn codau ymarfer a chanllawiau proffesiynol</p> <p>Rhybuddio rheolwyr ynghylch problemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygiad a pherfformiad</p>	<p>Cyfrannu at wella gwasanaethau, ymgorffori cyfraniad unigryw therapi galwedigaethol o ran hybu galwedigaeth ar gyfer iechyd a llesiant i bawb</p> <p>Deall ei rôl ei hun wrth nodi ac uwchgyfeirio pryderon ynglŷn â gofal ac urddas dinasyddion</p> <p>Datblygu ymddygiad a sgiliau arweinyddiaeth clinigol</p> <p>Rhoi a derbyn adborth mewn dull agored, gonest ac adeiladol</p> <p>Datblygu sgiliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafod • dylanwadu • trefnu • datrys problemau • rheoli adnoddau <p>Cyfuno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau meddwl yn feirniadol • sgiliau dadansoddol • sgiliau gwerthuso • sgiliau rhyngbersonol <p>Cyfuno amcanion personol ag amcanion sefydliadol</p> <p>Deall polisiau cyflogaeth y sefydliad mewn perthynas â pherfformiad tîm yn y gwaith</p> <p>Dangos crebwyll beirniadol annibynnol a bod â'r gallu i gymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu eraill i feddwl yn feirniadol</p>	<p>Tystysgrif rheoli</p>

Colofn ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Addysg (hwyluso dysgu)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu'r amgylchedd dysgu 	<p>Cymryd rhan mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn swydd a chyfrannu ato</p> <p>Yn gyfrifol ac yn atebol am fod â gwybodaeth gyfredol drwy ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus a thrwy gymryd rhan mewn gwaith goruchwyllo a mentora clinigol</p> <p>Yn gallu hwyluso dysgu hunangyfeiriedig a sgiliau datrys problemau a dangos tystiolaeth ohono</p> <p>Yn gallu dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o theori a chymhwyso sgiliau gwaith tîm, ac arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol mewn modd ymarferol</p> <p>Cefnogi rhwydweithiau dysgu</p>	<p>Helpu i hyfforddi eraill a chyfrannu at berfformiad tîm</p> <p>Hwyluso myfyrwyr ac eraill i ddatblygu eu gwybodaeth a'u cymhwysedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau datblygiad proffesiynol a phersonol</p> <p>Darparu addysg i ddinasyddion a theuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan weithredol yn eu gofal</p> <p>Cynnal asesiadau teg, gwrthrychol ac amserol o ddysgwyr</p> <p>Cyfrannu at greu amgylchedd dysgu effeithiol gan hwyluso cyfleoedd i'r myfyrwyr</p> <p>Cymryd rhan mewn archwiliadau addysgol</p> <p>Dangos y gallu i gymhwyso damcaniaethau dysgu sy'n briodol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a dysgwyr proffesiynol</p>	<p>Sgiliau cyflwyno</p> <p>Cyfuno a deall damcaniaethau ac egwyddorion am bobl fel bodau galwedigaethol ac egwyddorion dysgu sylfaenol</p> <p>Dysgu o brofiad drwy oruchwyllo, adborth, technegau ymarfer adlewyrchol a gwerthuso</p> <p>Cymell, ysgogi ac annog eraill i hwyluso'r broses ddysgu</p> <p>Defnyddio sgiliau craidd wrth asesu/addysgu/hwyluso technegau ymarfer</p> <p>Datblygu deunyddiau addysgol</p> <p>Deall dulliau gwella fel archwiliadau dysgu ac ymholiadau gwerthfawrogol</p> <p>Defnyddio modelau goruchwyllo/mentora</p> <p>Cydweithredu â sefydliadau addysg uwch perthnasol ar gyfer profiad dysgu ac asesu myfyrwyr</p> <p>Dangos gwybodaeth am ofynion y cwricwlwm a deilliannau dysgu a'u cymhwyso</p>	<p>Darllen cylchgronau proffesiynol</p> <p>Cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu, hyfforddiant mewn swydd, a chyfleoedd cyflwyno a datblygu</p> <p>Nodi anghenion dysgu drwy gymryd rhan weithredol mewn goruchwyllo proffesiynol, mentora ac ymarfer adlewyrchol</p>

Colofn ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
Tystiolaeth, ymchwil a datblygu • Troi tystiolaeth yn ymarfer	<p>Yn gallu fformiwleiddio rhagdybiaethau ymchwil</p> <p>Asesu ymarfer</p> <p>Gwerthuso canlyniadau ymchwil</p> <p>Gwneud ymchwil bwrdd gwaith</p> <p>Dadansoddi data ymchwil sylfaenol</p> <p>Cwestiynu ei ymarfer ei hun ac eraill yn gadarnhaol er mwyn cynnig cyfleoedd newydd i greu gwybodaeth newydd</p> <p>Asesu ei ymarfer a'i ymyriadau ei hun yn erbyn canlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion</p> <p>Cyfuno dealltwriaeth a chymhwysedd o ddulliau ymchwil gwahanol</p> <p>Dangos ymwybyddiaeth feirniadol o rôl ymchwil, a gallu i ddisgrifio agweddau penodol ar waith ymchwil cyfredol a gwneud sylwadau arno</p>	<p>Gwerthuso technegau a gweithdrefnau cyfarpar, a gwneud argymhellion</p> <p>Cymryd rhan weithredol mewn archwiliadau/ arolygon clinigol</p> <p>Cynorthwyo gyda datblygiad treialon clinigol neu brosiectau ymchwil a datblygu</p> <p>Cael mynediad i gronfeydd data am ymchwil a thystiolaeth, a'u defnyddio fel sail i'w ymarfer ei hun</p> <p>Nodi syniadau ar gyfer gweithgarwch ymchwil/datblygu o'i ymarfer ei hun</p> <p>Cyfrannu at weithgareddau casglu data fel archwilio a gwerthusiadau</p>	<p>Dangos tystiolaeth o waith ymchwil</p> <p>Defnyddio canfyddiadau ymchwil i ddangos datblygiad ymarfer</p> <p>Cynnal a datblygu sgiliau ymchwil</p> <p>Yn gallu chwilio drwy gronfeydd data a defnyddio sgiliau llythrennedd gwybodaeth</p> <p>Cael mynediad i ymchwil i gynorthwyo gydag ymarfer a'i ddefnyddio</p> <p>Dangos tystiolaeth o ddatblygu a/neu gynnal sgiliau ymchwil sylfaenol drwy gymhwyso theori i ymarfer</p> <p>Yn gallu dangos gwybodaeth am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • brosesau lleol sy'n cyfrannu at wella ansawdd • llywodraethu ymchwil – moeseg, diogelu data, cyfrinachedd <p>Ymgynghori ag ymchwilwyr profiadol mewn perthynas â chynllunio ymchwil a dadansoddi data</p>	<p>Cyfrannu at waith gwerthuso gwasanaethau (archwilio, ymchwil, adolygu)</p>

Ymarferydd profiadol

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 6

Disgrifiad cyffredinol o'r swydd

Bydd y swydd yn cynnwys:

- dealltwriaeth feirniadol o gyfraniad unigryw therapi galwedigaethol o ran hybu galwedigaeth ar gyfer iechyd a llesiant i bawb, a gwybodaeth am bobl fel bodau galwedigaethol
- adolygu a newid maint pecynnau gofal i'w gwneud yn fwy priodol h.y. cyflwyno achos dros gynyddu neu leihau pecynnau gofal; cynllunio a gweithredu rhaglenni er mwyn gwella sgiliau pobl fel y gellir addasu lefel y ddibyniaeth ar ofalwyr
- ymdrin â sefyllfaoedd codi a chario mwy cymhleth
- asesiadau risg cymhleth (mae hyn yn cynnwys gwerthuso darpariaeth gofal, cynghori ar ffiniau ymarfer diogel)
- dangos sut i ddefnyddio cyfarpar a thechnegau cymhleth er mwyn galluogi gofalwyr i gynnal darpariaeth y gofal
- datrys problemau cymhleth ac ymdrin â sefyllfaoedd mwy amlweddog, gweithio gyda phobl sydd â chyflyrau sy'n gwaethygu
- ymdrin â materion mynediad yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau gofal tymor hir, gofal preswyl a gofal cartref
- darparu cymorth i fyfyrwyr sydd ar leoliad, goruchwyllo gweithwyr cymorth
- gweithio ym maes ail-alluogi, asesu addasrwydd pobl ar gyfer rhaglenni, asesu potensial, a darparu cymorth a chynghori i gydweithwyr, cynllunio rhaglenni
- hwyluso a galluogi datblygiad y tîm drwy ddarparu arweinyddiaeth a chymorth i aelodau'r tîm
- mentora, goruchwyllo ac arwain staff llai profiadol
- gall fod yn ofynnol i staff mwy profiadol ddirprwyo ar gyfer rheolwyr llinell a datblygu eu sgiliau rheoli prosiectau.

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 6

Mae'n ofynnol i unigolion sydd ar Lefel 6 gael dealltwriaeth feirniadol o wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol fanwl, ac maen nhw'n arbenigwyr a/neu mae ganddynt gyfrifoldebau rheoli ac arweinyddiaeth. Maen nhw'n flaengar ac yn greadigol wrth ganfod atebion i broblemau. Maen nhw'n gyfrifol i ryw raddau am berfformiad tîm a datblygiad gwasanaethau, ac maen nhw'n hunan-ddatblygu'n barhaus (Sgiliau lechyd).

Mae ymarferwyr profiadol wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth a sgiliau mewn maes ymarfer penodol. Mae ganddynt ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n eu galluogi i berfformio ar lefel uchel, ymgymryd â rôl arweinyddiaeth, a defnyddio a datblygu tystiolaeth i lywio eu hymarfer, ac ymdrin ag amgylcheddau cymhleth na ellir eu rhagweld. Bydd ganddynt eu llwyth achosion eu hunain neu eu cyfrifoldebau eu hunain yn eu maes gwaith (Sgiliau lechyd).

Mae gan ymarferwyr Lefel 6 fwy o annibyniaeth a chyfrifoldeb nag ymarferwr Lefel 5 yn y maes clinigol. Mae pwyslais y rôl ar ddatblygu agweddau mwy arbenigol ar eu proffesiwn, gan ddechrau ystyried dewisiadau gyrfa a dilyn cyfleoedd datblygu a fydd yn sail i'r dyheadau gyrfa hynny.

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Datblygu cymhwysedd ac arloesedd ymhellach wrth reoli a darparu gofal, ac ymyriadau sy'n briodol i anghenion dinasyddion</p> <p>Dangos meistrolaeth ac arloesedd mewn dulliau ac adnoddau a ddefnyddir mewn maes gwaith cymhleth ac arbenigol</p> <p>Gwneud penderfyniadau sy'n cynnwys amrywiaeth o ffeithiau, dewisiadau, gwaith dadansoddi a dehongli</p>	<p>Bod yn atebol a chymryd cyfrifoldeb dros elfennau penodol o'r gofal a ddarperir</p> <p>Gweithio'n annibynnol, arwain gweithgareddau gwaith ar gyfer tîm neu eraill</p> <p>Gweithio'n annibynnol gyda rhyddid i arfer crebwyll am y camau sy'n cael eu llywio gan atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol</p> <p>Darparu gwasanaethau a chyngor clinigol, technegol, rheoli neu wyddonol arbenigol</p>	<p>Defnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol fanwl am faes gwaith sy'n cynnwys dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau a chysyniadau</p> <p>Defnyddio damcaniaethau ac egwyddorion ynglŷn â phwysigrwydd galluogi pobl i wneud yr hyn maen nhw'n ei ddymuno, ei angen neu y disgwylir iddynt ei wneud er mwyn cefnogi eu llesiant</p> <p>Gwerthuso ei ymarfer ei hun a nodi anghenion datblygu mewn amgylchedd cymhleth</p>	<p>Tystiolaeth o ddatblygiad sy'n cynnwys rhesymu clinigol uwch a gwneud penderfyniadau</p> <p>Dechrau addysg Lefel 7</p> <p>Lefel sylfaenol o sgiliau a welir mewn ymarfer sydd â chwmpas estynedig a/neu ofal cymhleth</p> <p>Hunan-ddatblygiad a datblygiad proffesiynol</p> <p>Rhaglen ddatblygu rheolwyr tîm</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol (parhad)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau wrth wneud penderfyniadau</p> <p>Rheoli tîm/cydgysylltu grŵp o bobl ac adnoddau mewn amgylcheddau na ellir eu rhagweld, derbyn cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau mewn gwaith na ellir ei ragweld neu mewn cyd-destun astudio</p> <p>Dangos sgiliau ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol uwch</p> <p>Uwchgyfeirio pryderon/materion o risg clinigol yn briodol (priodoli risg)</p> <p>Darparu tystiolaeth bod ymyriadau arbenigol yn seiliedig ar waith ymchwil cyfredol</p> <p>Rheoli materion moesegol cymhleth, penderfyniadau anodd a sefyllfaoedd o wrthdaro</p>	<p>Gweithredu polisi a chanllawiau, cynnig newidiadau i arferion neu weithdrefnau gweithio</p> <p>Cynllunio gweithgareddau cymhleth yn cynnwys trafod ag eraill a/neu dros gyfnod hir</p> <p>Derbyn cyfrifoldeb dros brynu/cynnal asedau, cyfarpar a/neu adnoddau</p> <p>Deall cyfyngiadau eu hymarfer proffesiynol</p> <p>Cynorthwyo eraill i ymgorffori prosesau gwella ansawdd mewn ymarfer</p> <p>Ymgorffori llywodraethu clinigol yn ei ymarfer ei hun a chynorthwyo eraill i wneud hynny</p>	<p>Defnyddio'i allu i greu a chynnal dadleuon er mwyn datrys problemau a rhoi atebion ar waith</p> <p>Defnyddio'i allu i gynnal ymyriadau, rhyddhau ac atgyfeirio fel sy'n briodol</p> <p>Dealltwriaeth o weithio mewn partneriaeth a dangos y gallu i weithio yn y dull hwnnw</p> <p>Defnyddio gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad arbenigol sy'n briodol i ymarfer sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer ei faes ei hun</p> <p>Gwerthuso ac adnabod agweddau arwyddocaol wrth sgwrsio ag eraill ac ymateb yn briodol</p> <p>Adlewyrchu ei werthoedd a'i gredoau ei hun wrth ymarfer, a helpu eraill i wneud penderfyniadau moesegol</p> <p>Defnyddio meddwl beirniadol er mwyn archwilio a dadansoddi tystiolaeth, achosion a sefyllfaoedd o ymarfer clinigol</p>	

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol 	<p>Dangos arweinyddiaeth ar gyfer maes gwaith gan dderbyn cyfrifoldeb dros reoli datblygiad proffesiynol unigolion a grwpiau</p> <p>Arwain gweithgareddau gwaith ar gyfer tîm neu eraill</p> <p>Hyrwyddo gwaith tîm mewn maes cyfrifoldeb diffiniedig</p> <p>Annog staff i gyfrannu syniadau ac atebion ar gyfer gwella ansawdd ac arloesedd</p> <p>Mynd ati'n ddiwyd i gyfrannu at rwydweithiau proffesiynol amrywiol e.e. rhydwethiau gwybodaeth a reolir, dysgu proffesiynol</p> <p>Darparu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chymhelliant i wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion ar gyfer y maes cyfrifoldeb</p> <p>Gweithredu er mwyn hybu awyrgylch cadarnhaol, morâl da a chydweithredu o fewn y tîm</p>	<p>Rheoli eraill a/neu elfennau o faes gwasanaeth</p> <p>Gallu datblygu a gweithredu ffyrdd effeithiol o weithio mewn rhwydweithiau ar draws ffiniau sefydliad a phroffesiynol</p> <p>Datblygu dealltwriaeth ehangach o faterion a blaenoriaethau sefydliadol a gwleidyddol</p> <p>Deall hierarchaeth ehangach a strwythurau sefydliadol sy'n effeithio ar eu gweithle</p> <p>Cyfrannu at waith tîm a rheoli aelodau eraill y tîm drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd</p> <p>Ymwneud â goruchwyllo/tiworiaeth glinigol</p> <p>Gweithredu pan fo angen cydnabod, gwella neu adrodd ar berfformiad ei hun ac eraill</p> <p>Trafod achosion o wrthdaro yn y tîm mewn ffordd agored ac annog neu hwyluso unigolion i ganfod ateb llesol drwy ymateb mewn ffordd dryloyw a strwythuredig</p> <p>Cyfrannu at waith recriwtio staff proffesiynol a gweithwyr cymorth</p> <p>Cyfrannu at waith goruchwyllo proffesiynol ac adolygu perfformiad sy'n benodol i'r proffesiwn</p>	<p>Datblygu atebion arloesol i ofynion gwella'r gwasanaeth</p> <p>Cymryd yr awenau wrth drefnu gwelliannau i'r gwasanaeth ar raddfa fach</p> <p>Gallu i drefnu a gweithredu newidiadau</p> <p>Helpu eraill i wella a datblygu ymarfer</p> <p>Dangos creadigrwydd ac arloesedd wrth ymchwilio i atebion posibl i broblemau a'u rhoi ar waith, ac wrth werthuso eu heffeithiolrwydd</p> <p>Arwain, darbwyllo a dylanwadu ar eraill yn effeithiol</p> <p>Cyfrannu at waith rheoli cyllideb yn effeithiol ar y cyd ag eraill</p> <p>Gallu i reoli eraill yn effeithiol</p> <p>Paroddrwydd i groesawu cyfraniad eraill</p> <p>Gweithredu awgrymiadau ar gyfer gwella ei hun ac eraill</p> <p>Dangos strategaethau clir ar gyfer hunan-reoli</p> <p>Cynorthwyo eraill i ddeall yr angen am newidiadau ac i wneud newidiadau y cytunwyd arnynt</p> <p>Dangos ei fod yn ymgysylltu'n frwd yn y gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ei faes ei hun</p>	<p>Deall prosesau rheoli newid</p> <p>Deall sgiliau arweinyddiaeth</p> <p>Pasbort Rheolwyr Cymru Gyfan</p> <p>Datblygu aelodau tîm</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Addysg (hwyluso dysgu)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu amgylchedd dysgu 	<p>Nodi anghenion dysgu unigolion/timau a'u helpu i'w cyflawni wrth ymateb i anghenion y gwasanaeth a chynlluniau datblygiad personol</p> <p>Cyfuno ei sgiliau asesu ei hun a chynorthwyo eraill i wneud penderfyniadau asesu</p> <p>Creu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n sicrhau cyfleoedd dysgu ar gyfer staff a myfyrwyr</p> <p>Defnyddio dulliau goruchwyllo rheolaidd, mentora a dysgu parhaus i nodi anghenion dysgu personol a'u cyfleu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diwallu</p> <p>Deall egwyddorion addysg a datblygiad proffesiynol</p>	<p>Cynllunio, trefnu a darparu digwyddiadau dysgu</p> <p>Hwyluso gweithdai, cynadleddau a digwyddiadau</p> <p>Gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau addysgol</p> <p>Cymryd rhan mewn addysgu disgyblaethol/amlddisgyblaethol a dewis myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch a/neu sefydliadau addysg eraill</p> <p>Arwain/cymryd rhan mewn archwiliadau addysgol a dadansoddiadau o anghenion dysgu</p> <p>Datblygu a chynorthwyo rhwydweithiau dysgu</p> <p>Hwyluso dysgu ac asesu ymarfer myfyrwyr a mentoriaid, a chefnogi myfyrwyr a/neu gydweithwyr</p> <p>Cymryd rhan weithredol mewn rhaglenni hyfforddi, tiwtor personol a phrosesau asesu myfyrwyr israddedig a chynnal sesiynau goruchwyllo clinigol ar gyfer staff is</p> <p>Gwerthuso'r broses o gynllunio a gweithredu modiwlau penodol</p>	<p>Yn cyfrannu'n weithredol at ddysgu gweithredol/yr ymchwil a/neu ymchwil academaidd</p> <p>Cyfrannu at bapurau ymchwil, poster a chyhoeddiadau</p> <p>Cyfuno sgiliau er mwyn helpu eraill i ddysgu yn y gweithle</p> <p>Adlewyrchu ar ymarfer a helpu eraill i wneud hynny</p> <p>Dangos lefel uchel o sgiliau wrth hwyluso, cynorthwyo, goruchwyllo a datblygu dadansoddiadau o anghenion dysgu</p> <p>Defnyddio gwybodaeth amrywiol er mwyn adolygu/gwerthuso'r amgylchedd dysgu</p> <p>Dangos datblygiad a chefnogaeth i ddiwylliant dysgu yn y sefydliad</p> <p>Cymryd rhan mewn cyflwyniadau a seminarau gyda chydweithwyr ar gyfer datblygiad a rennir</p>	<p>Datblygu sgiliau wrth hwyluso addysgu a dysgu</p> <p>Ymgymryd â hyfforddiant addysg clinigol priodol</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Tystiolaeth, ymchwil a datblygu</p> <p>• Troi tystiolaeth yn ymarfer</p>	<p>Defnyddio ymarfer adlewyrchol</p> <p>Nodi sgiliau a gwybodaeth staff a'u defnyddio i gynnal neu gynorthwyo gyda gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil, fel archwiliad, gwerthuso, a gwaith ymchwil ehangach er budd y sefydliad</p> <p>Cwestiynu ei ymarfer ei hun ac eraill yn gadarnhaol er mwyn creu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu canllawiau a pholisïau yn lleol a, lle y bo'n briodol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol</p> <p>Rhannu canfyddiadau gweithgarwch ymchwil drwy fwletinau lleol, cyfarfodydd tîm, cylchgronau proffesiynol</p> <p>Datblygu dealltwriaeth sylfaenol o brosesau sicrhau grantiau a dyfarniadau coleg</p> <p>Darparu tystiolaeth bod ymyriadau arbenigol yn seiliedig ar waith ymchwil cyfredol</p> <p>Parhau i ddatblygu ei sgiliau ei hun drwy ddarllen dulliau pobl eraill o feirniadu/ gwaith ymchwil pobl eraill</p>	<p>Cynnal treialon clinigol a phrosiectau ymchwil pan fo'r gweithgarwch hwn yn rhan sylweddol o'r disgrifiad swydd</p> <p>Defnyddio dulliau sy'n gysylltiedig ag ymchwil i asesu sut mae ef/hi ac eraill yn defnyddio tystiolaeth i lywio ansawdd gofal unigolion</p> <p>Edrych ar ddata a'i gofnodi gan ddefnyddio dulliau, adnoddau a thechnoleg briodol ar gyfer archwiliadau cymhleth, neu dreialon clinigol neu brosiectau</p> <p>Cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth</p> <p>Nodi a lledaenu gwybodaeth am raglenni ymchwil, fforymau, grwpiau diddordeb arbennig, rhwydweithiau sy'n berthnasol i faes ymarfer prifysgol/bwrdd GIG</p> <p>Dangos ei fod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu dulliau addysgu newydd er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn gwaith ymchwil</p>	<p>Yn gallu deall dulliau a dadansoddiadau ymchwil gwahanol</p> <p>Cydymffurfio ag ymchwil llywodraethu ar gyfer helpu ei hun ac eraill</p> <p>Cynorthwyo eraill i ddeall dulliau archwilio/ gwerthuso a gwella ansawdd</p> <p>Helpu eraill i gael mynediad i dystiolaeth o gronfeydd data sy'n berthnasol i'w maes ymarfer a'i ddefnyddio a'i chymhwyso</p> <p>Dangos gallu i arfarnu erthyglau cylchgronau yn feirniadol</p> <p>Dangos gallu i gyflwyno crynodeb/poster ar gyfer cynhadledd leol/genedlaethol</p> <p>Cynnig cyfraniad i gylchgrawn a adolygir gan gymheiriaid</p> <p>Defnyddio egwyddorion moesegol yn eu hymddygiad eu hunain, wrth ymdrin â phobl ac wrth adrodd ar ddata</p>	<p>Cyfrannu at/arwain gwerthusiadau o'r gwasanaeth (archwilio, ymchwil, adolygu)</p>

Uwch-ymarferydd

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 7

Disgrifiad cyffredinol o'r swydd

Bydd y rôl yn cynnwys agweddau amrywiol ar ymarfer uwch gan gynnwys:

Rheoli

- rheoli staff, gan gynnwys disgyblu, salwch a gallu
- datblygu gwasanaethau a darparu trosolwg strategol h.y. deall cyfeiriad strategol gwasanaethau a dylanwadu arnynt a chysylltu â thimau integredig, mynychu cyfarfodydd partneriaeth i gynllunio gwasanaethau newydd
- cynnal trosolwg o safonau ansawdd a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau
- goruchwylio therapyddion galwedigaethol cymwys, dyrannu gwaith/achosion a llunio cynlluniau datblygu personol ar gyfer staff is
- dirprwyo ar gyfer y rheolwr tîm
- darparu ail farn mewn achosion cymhleth, cynnal ymweliadau ar y cyd fel ymgynghoriaeth, a chynorthwyo staff i gadw achosion cynyddol gymhleth wrth i'r aelodau staff hynny ddatblygu
- ymdrin â chwynion anffurfiol a chynrychiolaeth.

Clinigol

- gwybodaeth arbenigol iawn a/neu wybodaeth gan arbenigwyr am bobl fel bodau galwedigaethol
- sgiliau arbenigol ar gyfer gwneud penderfyniadau ym maes therapi galwedigaethol mewn lleoliad cyffredinol neu leoliad arbenigol

- rheoli achosion cymhleth a gweithio gyda phobl gan ddefnyddio amrywiaeth gymhleth o wasanaethau ac ymyriadau (rheoli achosion)
- darparu gwasanaeth therapi galwedigaethol mewn cartrefi (preswyl neu nyrsio) sydd â phryderon sy'n gwaethygu
- diogelu a rheoli ymchwiliadau
- atal materion rhag gwaethygu e.e. cadw pobl yn eu cartrefi presennol a'u hatal rhag symud i ofal cartref nyrsio
- adolygu prosesau codi a chario a hyfforddi cynghorwyr
- parhau â phenderfyniadau gofal iechyd, gan gynnwys rhoi barn mewn perthynas ag atebion arloesol a gofal nyrsio cymhleth
- ym maes tai, nodi tai hygyrch, penderfyniadau ar ddyraniadau ac addasiadau cymhleth iawn, cydweithio â syrfewyr, timau cynllunio ac adeiladu
- darparu cyngor arbenigol ar therapi galwedigaethol ar gyfer manyleb adeilad newydd
- arwain prosiectau, treialon, ymestyn cwmpas a datblygiadau arloesol fel prosiectau gofal unigol, mewngymorth iechyd, ailgartrefu a gweithio ar ambiwlansiau gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, cadw pobl allan o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys (darpariaeth gofal ehangach, yn ogystal ag ymyriadau sy'n benodol i therapi galwedigaethol)
- gwasanaethau plant: pontio plant ag anabledau cymhleth/sy'n cyfyngu bywyd
- cyfarpar, seddi, neu addasiadau arbenigol/pwrpasol iawn
- aseswyr lles gorau ac ymarferwyr iechyd meddwl a gymeradwyr.

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 7

Mae gan unigolion sydd ar Lefel 7 y fframwaith gyrfaoedd ymwybyddiaeth feirniadol o faterion gwybodaeth yn y maes ac yn y rhyngwyneb rhwng meysydd gwahanol. Maen nhw'n arloesol, ac mae ganddynt gyfrifoldeb dros ddatblygu a newid ymarfer a/neu wasanaethau mewn amgylchedd cymhleth na ellir ei ragweld (Sgiliau lechyd).

Mae uwch ymarferwyr yn weithwyr proffesiynol profiadol sydd wedi datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ddamcaniaethol i safon uchel iawn, gan gyflawni rôl gymhleth iawn a datblygu eu hymarfer yn barhaus mewn maes a ddiffinnir a/neu fod â chyfrifoldebau rheoli am uned/adran fach. Bydd ganddynt eu llwyth achosion neu eu cyfrifoldebau maes gwaith eu hunain (Sgiliau lechyd).

Mae hon yn rôl sy'n gofyn bod ymarferydd cofrestredig wedi ennill gwybodaeth sylfaenol arbenigol, sgiliau ar gyfer gwneud penderfyniadau cymhleth a chymwyseddau clinigol ar gyfer ymestyn cwmpas yr ymarfer, ac mae'r nodweddion yn cael eu llywio gan y cyd-destun y mae'r unigolyn yn ymarfer ynddo. Argymhellir addysg berthnasol lefel meistr ar gyfer lefel mynediad (dogfen AP Cymru).

Dylid ystyried ymarfer uwch fel 'lefel o ymarfer' yn hytrach na rôl benodol ac nid yw'r maes clinigol yn nodwedd unigryw ohono, ond gall gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn rolau ymchwil, addysg, rheoli/arweinyddiaeth hefyd (Dogfen AP Cymru).

Uwch ymarferwyr gyda lefel uchel o sgiliau a gwybodaeth ddamcaniaethol a fydd yn gwneud penderfyniadau clinigol uwch a rheoli eu llwyth gwaith eu hunain.

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Datblygu cymhwysedd, arloesedd ac arweinyddiaeth uwch wrth reoli a darparu ymyriadau gofal sy'n briodol i ddinasyddion</p> <p>Dangos ymwybyddiaeth feirniadol o faterion gwybodaeth yn y maes gwaith ac yn y rhyngwyneb rhwng meysydd gwaith gwahanol</p> <p>Dangos annibyniaeth yng nghyfeiriad yr ymarfer gan ymateb yn briodol i faterion cymdeithasol, gwyddonol, clinigol a moesegol a wynebir</p> <p>Llywodraethu clinigol</p>	<p>Darparu gwasanaethau clinigol, technegol, rheoli a/neu wyddonol arbenigol ar draws maes gwaith sy'n cynnwys penderfyniadau cymhleth</p> <p>Derbyn cyfrifoldeb dros faes gwaith, gwasanaethau arbenigol neu lwybrau clinigol</p> <p>Aseu, rhoi diagnosis, atgyfeirio a rhyddhau</p> <p>Aseu sefyllfaoedd, adnabod achosion sylfaenol problemau cymhleth ac ymgymryd â rôl arweiniol mewn gwaith llywodraethu clinigol mewn meysydd ymarfer penodol</p>	<p>Defnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol arbenigol iawn, gyda rhywfaint ohono'n arloesol o ran gwybodaeth ym maes therapi galwedigaethol, gan gynnwys amrywiaeth o weithdrefnau sy'n seiliedig ar wybodaeth, profiad a chymhwysedd perthnasol ac eang. Mae'r wybodaeth hon yn sail i wreiddioldeb wrth ddatblygu a/neu gymhwyso syniadau</p> <p>Gwneud penderfyniadau clinigol a datrys problemau</p> <p>Dadansoddi sefyllfaoedd cymhleth yn gyflym, gan nodi agweddau pwysig a chymryd camau priodol</p>	<p>Datblygu sgiliau newydd mewn ymateb i wybodaeth a thechnegau sy'n dod i'r amlwg</p> <p>Tystiolaeth o wybodaeth cymhwyster lefel meistr yn y maes pwnc neu'n gweithio tuag at hynny</p> <p>Mae'n rhaid i addysg meistr/Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru lefel 7 fod yn sail i holl ddatblygiadau rôl uwch-ymarferwyr yng Nghymru</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol (parhad)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Hyrwyddo parch a helpu eraill i ystyried urddas, dymuniadau a chredoau pob dinesydd gan eu cynnwys mewn penderfyniadau ar y cyd</p> <p>Deall strwythur sefydliadau iechyd a'r polisïau sy'n dylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Ymarfer yn annibynnol ac fel rhan o dîm, gan ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau, meddwl beirniadol a thystiolaeth uwch</p> <p>Datblygu hyder</p> <p>Arddangos lefelau uchel o ymarfer fyfyrion ac adlewyrchol</p> <p>Gweithredu ar adborth gan ddinasyddion a'r cyhoedd yn ehangach i lywio a gwella ymarfer</p> <p>Cynorthwyo a herio ymarferwyr ar agweddau penodol ar eu ymarfer</p>	<p>Arwain/cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ymyriadau effeithiol yn y maes gofal iechyd, gan gynnwys asesu a datrys problemau, i reoli risgiau gwirioneddol neu bosibl</p> <p>Annog a dylanwadu ar eraill i ymgorffori gofal sy'n seiliedig ar werthoedd mewn ymarfer</p> <p>Cyfrannu at strategaethau ac ymarfer sy'n hyrwyddo hawliau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a gweithredu yn unol â'u dewisiadau, a chynorthwyo eraill i wneud hynny</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu amcanion sefydliadol a chreu cyfleoedd i gynnwys ymarferwyr eraill</p> <p>Nodi a rhannu gwybodaeth mwy cymhleth yn effeithiol a chryno ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau er mwyn sicrhau diogelwch dinasyddion a pharhad gofal</p> <p>Gweithio fel rhan o dîm, gyda gwasanaethau eraill ac ar draws ffiniau amlasiantaethol er mwyn cael gafael ar grwpiau anodd eu cyrraedd</p> <p>Nodi tueddiadau a newidiadau i anghenion poblogaeth, a'r effeithiolrwydd o ran diwallu'r anghenion hynny</p>	<p>Dangos crebwyll beirniadol annibynnol a gallu ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddatblygu meddwl beirniadol mewn pobl eraill</p> <p>Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau beirniadol</p> <p>Rhannu ac amddiffyn ei safbwynt ei hun yn gryno ac yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd</p> <p>Rheoli cymhlethdod</p> <p>Sgiliau cyfathrebu lefel uwch</p> <p>Sgiliau dylanwadu lefel uchel</p> <p>Datblygu sgiliau seicomotor uwch</p> <p>Defnyddio mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau e.e. pwyllgorau</p> <p>Yn rhan o rwydweithiau clinigol, cymunedau ymarfer</p> <p>Defnyddio sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad uwch sy'n berthnasol i faes ymarfer penodol</p> <p>Asesu, rhoi diagnosis, cynllunio, gweithredu a chyfarwyddo gofal, ymyriadau a gwerthuso effeithiolrwydd</p> <p>Datblygu a chynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu polisïau, protocolau a gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn adlewyrchu polisïau a deddfwriaeth genedlaethol</p> <p>Arwain y gwaith o weithredu fframwaith llywodraethu clinigol y sefydliad yn ei faes ymarfer ei hun a chynorthwyo eraill i'w ddefnyddio</p>	<p>Gellir dangos llwyddiant ar y lefel hon naill ai drwy ddyfarniad academaidd, credyd, neu drwy fapio canlyniadau yn erbyn y lefel</p> <p>Rhagnodi anfeddygol</p> <p>Dangos datblygiad proffesiynol parhaus mewn dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol 	<p>Dangos arweinyddiaeth ac arloesedd mewn cyd-destunau gwaith sy'n gymhleth ac na ellir eu rhagweld, ac sy'n gofyn am ddulliau strategol newydd</p> <p>Datrys problemau drwy integreiddio ffynonellau gwybodaeth cymhleth sydd weithiau'n anghyflawn, ac mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd. Byddant yn gwneud penderfyniadau cymhleth</p> <p>Deall ei hun ac eraill</p> <p>Creu diwylliant o gefnogaeth a grymuso ar gyfer y tîm</p> <p>Cynnal adolygiadau beirniadol o berfformiad y tîm a defnyddio'r canlyniadau i wella gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion</p> <p>Gweithredu pan ddylid cydnabod, gwella neu adrodd ar berfformiad ac ymarfer ei hun ac eraill</p> <p>Arwain a monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd clinigol er mwyn gwella prosesau rheoli adnoddau</p>	<p>Dangos profiad o reoli newid mewn amgylchedd cymhleth</p> <p>Cynnig newidiadau i arferion neu weithdrefnau sy'n cael effaith y tu hwnt i'w faes gwaith ei hun</p> <p>Rheoli staff a/neu wasanaethau sy'n amrywio o ran maint a chymhlethdod, adolygu a blaenoriaethu gweithgareddau gwaith yn ôl yr angen</p> <p>Cynllunio a/neu drefnu amrywiaeth eang o weithgareddau neu raglenni cymhleth gan greu strategaethau</p> <p>Nodi'r angen dros newid, arwain arloesedd a rheoli newid, gan gynnwys datblygu gwasanaethau ac annog eraill i gyfrannu a hyrwyddo effaith y newid</p>	<p>Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth anghyflawn neu gyfyngedig</p> <p>Sgiliau trafod a dylanwadu</p> <p>Gallu dangos lefel uchel o sgiliau wrth gydweithredu a chyfathrebu mewn timau</p> <p>Defnyddio modelau adeiladu tîm a gweithio mewn grwpiau</p> <p>Defnyddio adnoddau asesu'r gweithlu a'r llwyth gwaith er mwyn creu achos busnes a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer gwaith datblygu gweithlu gyda'r tîm</p> <p>Creadigrwydd ac arloesedd wrth ymchwilio i atebion posibl a'u gweithredu</p> <p>Sgiliau rheoli ac arwain sy'n cyfrannu at newidiadau llwyddiannus</p> <p>Dangos y gall weithio mewn partneriaeth</p> <p>Dangos ymwybyddiaeth o effeithiau ei ymddygiad ei hun ar eraill</p> <p>Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes cyfrifoldeb</p> <p>Cyflwyno gwybodaeth gymhleth yn effeithiol mewn adroddiadau ysgrifenedig a llafar</p>	<p>Rheoli timau a gofal cymhleth</p> <p>Gallu dangos dealltwriaeth o economeg iechyd</p> <p>Gallu dangos dealltwriaeth o faterion iechyd y cyhoedd</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth (parhad)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol 	<p>Nodi perfformiad gwael ac yn derbyn cyfrifoldeb dros sicrhau bod cyfleoedd datblygu priodol ar gael er mwyn mynd i'r afael â phryderon</p> <p>Sicrhau bod nodau'r sefydliad yn cael eu hadlewyrchu mewn amcanion personol ac yn amcanion y tîm</p> <p>Cymryd rhan weithredol ac amlwg yn y gwaith o roi arweiniad i staff ac eraill</p> <p>Yn weithredol ac yn defnyddio'i grebwyll wrth i broblemau godi neu pan fo'r cynnydd yn araf</p> <p>Dangos ei fod yn darparu cyfleoedd ar gyfer staff i ymestyn a datblygu eu sgiliau rheoli a chwblhau datblygiad proffesiynol priodol</p> <p>Nodi patrymau rhwng sefyllfaoedd cyfredol a sefyllfaoedd yn y gorffennol, tynnu sylw eraill at batrymau, tueddiadau neu wybodaeth goll</p>	<p>Monitro gwaith y tîm yn darparu gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar unigolion a gweithredu ar y canlyniadau</p> <p>Rhoi adborth amserol i'r tîm sy'n cydnabod perfformiad da ac yn nodi meysydd ar gyfer gwella</p> <p>Cymryd rhan a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisiau a strategaethau lleol (a chenedlaethol, lle y bo'n briodol) drwy gefnogi a datblygu meddwl yn ochrol eich hun ac eraill</p> <p>Yn rhan o ddatblygiadau mewn ymarfer proffesiynol, ac yn gwednewid dulliau darparu gwasanaethau</p> <p>Darparu arweinyddiaeth ar gyfer tîm amlbroffesiynol gan roi cyfeiriad a chymell, a chydlynu'r tîm er mwyn helpu aelodau i gyflawni amcanion y tîm ac amcanion gwaith personol</p> <p>Cymryd rhan yn y broses oruchwylio a rheoli staff</p> <p>Nodi a gwerthuso meysydd ar gyfer gwelliannau posibl i wasanaethau</p> <p>Arfarnu polisiau a strategaethau drafft er mwyn canfod eu heffaith ar ddefnyddwyr a'r cyhoedd, a gwneud argymhellion ar gyfer eu gwella</p> <p>Dangos gallu i reoli cyllid a chyfarpar</p>	<p>Helpu'r sefydliad i ddatblygu a gweithredu polisiau</p> <p>Darparu cyfeiriad i bobl er mwyn eu galluogi, eu hysbrydoli, eu cymell a'u cynorthwyo i gyflawni amcanion y sefydliad a defnyddio gwahanol dulliau arweinyddiaeth sy'n briodol i bobl a sefyllfaoedd gwahanol</p> <p>Hwyluso trafodaethau'n effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau clir</p> <p>Dangos gwydnwch dan bwysau a gwrthod gadael i anawsterau effeithio ar eu perfformiad</p> <p>Tystiolaeth ei fod yn arfarnu perfformiad staff neu'n rheoli'r gwaith arfarnu hwnnw</p> <p>Dangos gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth</p> <p>Dangos gallu i ddatblygu a gweithredu ffyrdd effeithiol o weithio mewn rhwydweithiau ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol</p>	

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Addysg (hwyluso dysgu)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu'r amgylchedd dysgu 	<p>Egwyddorion addysgu a dysgu</p> <p>Datblygu deunyddiau addysgol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr</p> <p>Meithrin gallu i gynorthwyo gyda'r dysgu mewn lleoliadau ymarfer</p> <p>Creu diwylliant dysgu cadarnhaol drwy sicrhau a gwella ansawdd cyfleoedd addysgol yn yr amgylchedd gwaith</p> <p>Dangos ei fod yn cymryd rhan weithredol mewn rhaglenni hyfforddi ar gyfer maes arbenigol</p> <p>Dangos ei fod yn cymryd rhan weithredol mewn tiwtora personol ar gyfer israddedigion ac ôlraddedigion</p> <p>Cynorthwyo a chyfrannu at waith datblygu'r cwricwlwm a gwaith adolygu a diwygio modiwlau, pynciau a rhaglenni ar lefel adrannau prifysgol ac ar draws adrannau prifysgol</p> <p>Dangos bod asesiadau'n cael eu datblygu er mwyn bodloni'r gofynion a defnyddio damcaniaethau addysgu</p> <p>Tystiolaeth ei fod yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau marcio ar bob lefel o astudiaethau israddedig</p> <p>Tystiolaeth ei fod yn rhan weithredol o ddatblygu eraill, ac o alluogi eraill i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth ymarfer</p>	<p>Datblygu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglenni dysgu a datblygiad</p> <p>Darparu cyngor a chymorth i ymarferwyr eraill er mwyn datblygu gwybodaeth a dulliau hyfforddi sgiliau</p> <p>Ymwneud â darparwyr addysg er mwyn cyfrannu at waith datblygu, darparu a gwerthuso'r cwricwlwm</p> <p>Cymryd rôl arweiniol wrth sicrhau bod safonau a chanllawiau sy'n sail i brofiad dysgu o ansawdd yn cael eu cymhwyso</p> <p>Dadansoddi'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddysgu a'u hystyried wrth gynllunio a rheoli profiadau dysgu</p> <p>Cynghori darparwyr gwasanaethau/addysg am y posibiladau a'r capasiti o ran profiad myfyrwyr ar leoliadau</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu darpariaeth ôlraddedig datblygiad proffesiynol parhaus</p> <p>Dangos ymwybyddiaeth o faterion addysgol a chymdeithasol cyfredol</p> <p>Cynllunio rhaglenni er mwyn diwallu anghenion hyfforddi staff</p> <p>Galluogi eraill i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau</p> <p>Rhoi adborth penodol – cadarnhaol a chywirol – ac asesu cymhwysedd eraill fel y gellir dirprwyo cyfrifoldeb llawn pan fyddant yn barod</p>	<p>Gweithredu fel mentor profiadol, hyfforddwr clinigol, goruchwyliwr</p> <p>Model rôl, annog a chynorthwyo eraill i feithrin sgiliau addysgu, goruchwyllo a mentora</p> <p>Gweithredu ar wybodaeth o archwiliadau addysgol er mwyn cryfhau'r gweithle a'i wneud yn amgylchedd dysgu cadarnhaol</p> <p>Deall egwyddorion yr amgylchedd dysgu a sefydliadau cymhleth</p> <p>Gweithredu fel addysgwyr/aseswr profiadol ar gyfer dysgu yn seiliedig ar waith</p> <p>Datblygu a hwyluso'r defnydd o ddeunyddiau addysgol ar gyfer myfyrwyr, staff a defnyddwyr gwasanaethau</p> <p>Sgiliau model rôl wrth asesu cymhwysedd</p> <p>Dangos ei fod yn cymryd rhan mewn datblygiadau cysylltiedig mewn ymarfer a chyfrannu atynt</p> <p>Dangos cysylltiadau cydweithredol y tu allan i'r brifysgol gyda sefydliadau diwydiannol, masnachol a chyhoeddus</p> <p>Dangos gwybodaeth a chymhwysedd uwch mewn perthynas â gofynion y cwricwlwm ac amcanion dysgu</p> <p>Dangos ei fod yn darparu cymorth academiaidd i fyfyrwyr, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r system adolygu cynnydd, a darparu adborth priodol ac amserol ar asesiadau</p> <p>Mynd ati'n frwd i hyrwyddo'r gweithle fel amgylchedd dysgu, gan annog pawb i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac o ymarfer da allanol</p> <p>Annog eraill i wneud hunanasesiadau realistig o'r ffordd maen nhw'n defnyddio a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau, gan herio difaterwch a gweithredoedd nad ydynt er budd y cyhoedd a/neu ddefnyddwyr gwasanaethau</p>	<p>Hwyluso datblygiad staff a hyrwyddo amgylchedd dysgu'r myfyrwr</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Tystiolaeth, ymchwil a datblygu</p> <p>• Troi tystiolaeth yn ymarfer</p>	<p>Gallu i gael gafael ar waith ymchwil/defnyddio systemau gwybodaeth</p> <p>Bod yn fodel rôl ar gyfer y tîm ehangach drwy hyrwyddo divylliant cadarnhaol mewn perthynas â gwaith ymchwil</p> <p>Nodi, hyrwyddo a sefydlu tystiolaeth, a nodi mesurau effaith, gan ddefnyddio canfyddiadau i wella gweithgarwch yn y dyfodol</p> <p>Addysgu eraill am ddulliau arfarnu beirniadol er mwyn atgyfnerthu/egluo ei sgiliau ei hun</p> <p>Cyfleu ei safbwynt ei hun yn gryno a'i amddiffyn yn briodol</p> <p>Dangos ei fod yn rhan weithredol o waith goruchwyllo gweithgarwch ymchwil israddedigion</p> <p>Darparu tystiolaeth o waith ymchwil cyhoeddedig wedi'i adolygu gan gymheiriaid a chymryd rhan mewn cynadleddau a seminarau proffesiynol</p>	<p>Sganio'r gorwel</p> <p>Datblygu'r sail dystiolaeth</p> <p>Cyfrannu at yr agenda ymchwil ehangach drwy gychwyn neu gefnogi gweithgareddau ymchwil</p> <p>Casglu adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth</p> <p>Defnyddio sgiliau arbenigol ar gyfer datrys problemau sy'n ofynnol ar gyfer gwaith ymchwil a/neu arloesedd er mwyn datblygu gwybodaeth a gweithdrefnau newydd, ac integreiddio gwybodaeth o wahanol feysydd</p> <p>Cynllunio archwiliad mewn maes arbenigol</p> <p>Cynnal gwaith ymchwil a gymeradwyir yn foesebol</p> <p>Ceisio/cynyddu cydweithredu ag ymchwilwyr eraill yn eich maes ymchwil eich hun neu'n ehangach yn y DU a thu hwnt</p> <p>Ysgrifennu cynigion ymchwil ar gyfer adnoddau cyllid bach</p> <p>Nodi tueddiadau a newidiadau yn anghenion y boblogaeth, a'r effeithiolrwydd wrth ddiwallu'r anghenion hynny</p> <p>Darparu mentoriaeth ar gyfer ymchwilwyr dibrofiad</p> <p>Addysgu eraill neu roi arweiniad iddynt am oblygiadau gwaith ymchwil ar gyfer ymarfer</p> <p>Ymgymryd â phrosiectau ymchwil personol a chyfrannu'n weithredol at broffil ymchwil y sefydliad</p>	<p>Dangos dealltwriaeth o ddatblygiad ceisiadau cynigion ymchwil, proses gymeradwy o foesebol a ffynonellau cyllid</p> <p>Defnyddio a deall prosesau llywodraethu ar gyfer gwaith ymchwil a gwybodaeth i gynorthwyo eraill gyda phrosesau ymchwil</p> <p>Gwerthuso data a gwybodaeth yn feirniadol, yn gywir a gyda dirnadaeth, a gallu cyfuno a defnyddio'n briodol data a gesglir o ddulliau amrywiol</p> <p>Gallu i roi canfyddiadau ymchwil ar waith – gan gynnwys y defnydd o bolisiau/protocolau a chanllawiau a'u datblygiad</p> <p>Gwella ymhellach ei wybodaeth am ddulliau ymchwil, gan gynnwys dulliau gwerthuso uwch</p> <p>Dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n berthnasol i'w ymchwil ei hun</p> <p>Dangos cyfraniad llwyddiannus i gylchgrawn a adolygir gan gymheiriaid</p> <p>Cyflwyno crynodebau/poster yn llwyddiannus ar gyfer cynhadledd leol/genedlaethol</p> <p>Dangos gwybodaeth am y prif godau, datganiadau o egwyddorion moesebol, a chyfreithiau/rheoliadau sy'n pennu ymddygiad cyfrifol mewn gwaith ymchwil</p> <p>Cynnig cyfrannu at gylchgrawn a adolygir gan gymheiriaid</p> <p>Cyflwyno adroddiadau neu grynodebau yn seiliedig ar waith ymchwil mewn cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol</p>	<p>Cyflwyniadau mewn cynadleddau</p> <p>Cyhoeddiadau</p> <p>Cydweithredu â sefydliadau addysg uwch ar waith ymchwil</p>

Ymgynghorydd

(mae'n cynnwys rheolwyr gwasanaethau a/neu bobl mewn rolau datblygu neu arwain strategol hefyd)

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 8

Bydd y swydd yn cynnwys:

- arwain strategaethau a pholisïau yn rhanbarthol a/neu'n genedlaethol mewn meysydd penodol
- arwain yr ymarfer therapi galwedigaethol uchaf a mwyaf cymhleth, ymgynghoriaeth ar faterion ymarfer, ac addysg a hyfforddiant ar gyfer personél therapi galwedigaethol, a/neu arwain gwaith ymchwil yn seiliedig ar ymarfer a/neu ddatblygiad
- yn atebol am ddarparu gwasanaethau therapi galwedigaethol yn weithredol a phroffesiynol mewn sefydliadau neu ar eu traws
- ymdrin â chwynion ffurfiol
- datblygu, casglu a lledaenu'r dystiolaeth er mwyn dangos cyfraniad therapi galwedigaethol at iechyd a llesiant pobl yn y gymuned
- bwrw ymlaen i weithredu deddfwriaeth a chanllawiau er mwyn newid a datblygu ymarfer. Datblygu ymarfer eraill ym maes therapi galwedigaethol a'r tu hwnt iddo er mwyn hybu a sefydlu integreiddio.

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 8

Mae'n ofynnol i bobl ar Lefel 8 y fframwaith gyrfaoedd feddu ar wybodaeth arbenigol iawn, a bydd rhywfaint ohono yn flaengar iawn mewn maes penodol, a ddefnyddir ganddynt fel sail i feddwl yn wreiddiol a/neu ymchwil. Maen nhw'n arweinwyr gyda chryn gyfrifoldeb, a'r gallu i ymchwilio i brosesau cymhleth a'u dadansoddi. Maen nhw'n gyfrifol am wella neu ddatblygu gwasanaethau. Gall fod ganddynt gyfrifoldebau rheoli sylweddol a gallant fod yn atebol am ddarparu gwasanaethau neu mae ganddynt rôl addysg neu gomisiynu arweiniol (Sgiliau lechyd).

Mae'r ymarferydd ymgynghorol yn ymarferydd arbenigol sydd â lefel uchel o gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau. Mae gwaith ymchwil yn rhan sylweddol o'r rôl. Byddant yn cynnal gwaith ymchwil, a gall fod ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am gydgyssylltu rhaglenni ymchwil a datblygu, yn ogystal â sicrhau bod canfyddiadau ymchwil cyfredol yn cael eu defnyddio gan bob aelod staff i lywio eu hymarfer. Bydd yr ymarferwyr ymgynghorol yn arwain drwy esiampl wrth ddatblygu atebion arloesol iawn i broblemau'n seiliedig ar waith ymchwil ac ymchwiliadau gwreiddiol. Byddant yn cymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol ddatblygiedig iawn mewn amrywiaeth eang o swyddogaethau clinigol, gwyddonol, technegol a/neu reoli (Sgiliau lechyd).

Mae'r ymarferydd ymgynghorol yn arbenigwr mewn ymarfer proffesiynol, gan sicrhau bod arloesedd a dylanwad yn gysylltiedig ag arweinyddiaeth glinigol, yn ogystal â chyfeiriad strategol mewn maes penodol er lles defnyddwyr gwasanaethau/cleientiaid. Fel arfer, ni fyddai'r ymarferydd ymgynghorol yn rheoli gwasanaethau'n weithredol o ddydd i ddydd. Bydd gan ymarferydd ymgynghorol annibyniaeth broffesiynol yn gyffredinol ac wrth wneud penderfyniadau, a bydd yn gweithio y tu hwnt i lefel yr ymarfer ar gyfer arbenigwyr clinigol ac eraill sydd â rolau estynedig neu uwch.

Bydd gan yr ymarferydd ymgynghorol ran allweddol yn y gwaith o integreiddio tystiolaeth o waith ymchwil mewn ymarfer clinigol. Bydd sgiliau eithriadol a lefelau uwch o grebwyll, gwybodaeth a phrofiad clinigol yn sail i'w arbenigedd a'i allu i hyrwyddo darpariaeth yr agenda llywodraethu clinigol. Bydd yn gwneud hynny drwy wella ansawdd ym meysydd asesu, rhoi diagnosis, rheoli, a gwerthuso gan sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau/cleientiaid ac ymestyn ffiniau ei faes ymarfer.

Bydd ymarferwyr ymgynghorol yn gweithio'n strategol ar draws modelau amrywiol o ddarparu gwasanaethau, a disgwylir iddynt ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau pan fo'r effaith ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau/cleientiaid.

Er bod ymarferwyr ymgynghorol yn weithwyr proffesiynol annibynnol, mae'n rhaid iddynt weithio o fewn fframweithiau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol, a pharhau'n atebol dros eu gweithredoedd ac unrhyw anwaith fel ymarferwyr cofrestredig. Mae'n hanfodol bod ffiniau cyfrifoldeb, annibyniaeth, awdurdod ac atebolrwydd y swydd wedi'u diffinio mewn unrhyw beth a gyflwynir i'w gymeradwyo (Canllawiau Cymru gyfan ar gyfer datblygu rolau ymarferwyr ymgynghorol).

Staff sy'n gweithio gyda lefel uchel o arbenigedd a/neu sydd â chyfrifoldeb am gynllunio gwasanaethau.

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Cyfathrebu ag awdurdod drwy gyfrannu'n feirniadol at drafodaethau mewn cymuned arbenigol</p> <p>Ymestyn ac ailddiffinio gwybodaeth a/neu ymarfer proffesiynol mewn maes gwaith neu ar y rhyngwyneb rhwng meysydd gwaith</p> <p>Bydd prif swyddogaeth ymarfer arbennig uwch yn ganolog i rôl yr ymarferydd ymgynghorol a dylai o leiaf 50 y cant o amser yr ymgynghorydd ganolbwyntio ar ddarparu gofal uniongyrchol</p> <p>Bydd yr elfen ymarfer arbenigwr uwch yn cynnwys yr ymarferydd ymgynghorol yn cydweithio â dinasyddion a/neu gymunedau er mwyn darparu arbenigedd clinigol ar lefel eithriadol o uchel. Byddant yn gallu gwneud penderfyniadau clinigol mewn argyfwng dan amgylchiadau lle nad oes cysail</p> <p>Rheoli gwaith cydweithwyr llai profiadol a myfyrwyr</p> <p>Mentora gweithwyr proffesiynol uwch</p> <p>Herio strategaethau ac ymarfer er mwyn hyrwyddo hawliau defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr yn unol â thargedau o ddewis, annibyniaeth a grymuso</p>	<p>Bod yn arbenigwr mewn un neu ragor o feysydd gwasanaeth</p> <p>Cyfrifoldeb am reoli llwyth achosion cymhleth sy'n gorfod cynnwys darparu a rheoli gwasanaeth cyngori clinigol arbenigol</p> <p>Cyfrifoldeb am ddull system gyfan sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion sy'n ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu a gwneud penderfyniadau ar y cyd</p> <p>Cyfrifoldeb dros sicrhau y cydymffurfir â dimensiwn moesegol a moesol ymarfer</p> <p>Arfer y lefel uchaf o annibyniaeth broffesiynol, gan gynnwys sefyllfaoedd cymhleth sy'n gofyn am ddadansoddi a dehongli gwybodaeth, a gwneud penderfyniadau lle nad oes cysail o reidrwydd</p> <p>Creu a datblygu protocolau a llwybrau gofal gyda'r nod o ddarparu enghreifftiau o ymarfer da i eraill</p> <p>Sicrhau bod polisïau/ymarfer/safonau lleol yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn adlewyrchu'r ymarfer da sydd ar gael</p> <p>Defnyddio mecanweithiau amrywiol i archwilio a gwerthuso ei ymarfer a'i berfformiad ei hun yn feirniadol, gan gynnwys hunan-adlewyrchu a dilysu gan ddinasyddion, gofawyr a chydweithwyr.</p> <p>Cyflawni rôl ym maes llywodraethu clinigol, gan ddarparu mewnbyn arbennig a gweithio er mwyn sicrhau gwell ansawdd ar draws sbectrwm eang o ddarpariaeth gofal</p>	<p>Defnyddio gwybodaeth arbenigol i ddadansoddi, gwerthuso a chyfuno syniadau newydd a chymhleth mewn modd beirniadol ar reng flaen y maes therapi galwedigaethol</p> <p>Lled a dyfnder ei wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd o fewn ei faes ymarfer</p> <p>Hyrwyddo ac arddangos ymarfer da</p> <p>Meddwl yn feirniadol ac adlewyrchu wrth wneud penderfyniadau proffesiynol gan gynnwys y rhai yn y cyd-destunau mwyaf cymhleth na ellir eu rhagweld</p> <p>Hwyluso'r broses o integreiddio tystiolaeth ymchwil mewn ymarfer</p> <p>Deall a chymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau newydd a rhai sy'n datblygu</p> <p>Modelu a hyrwyddo dulliau o feddwl yn feirniadol ar lefel arbenigol er mwyn archwilio a dadansoddi tystiolaeth, achosion a sefyllfaoedd gan ei alluogi i wneud penderfyniadau lefel uchel ar draws amrywiaeth o faterion clinigol, datblygiadol a darparu gwasanaethau</p> <p>Defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol, goruchwyllo clinigol ac archwilio clinigol i arwain, rheoli a datblygu agweddau cyfreithiol a moesegol ar brosesau datblygu a darparu gwasanaethau</p> <p>Gwneud penderfyniadau clinigol, gweithredol a strategol arbennig</p> <p>Dylanwadu ar broffesiynau eraill a'r sefydliad ehangach, gan gynnwys gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a mynd ati i weithio ar y cyd yn rhyngasiantaethol</p> <p>Dangos gallu i feddwl yn gwreiddiol ac yn llawn gweledigaeth wrth gymhwyso gwybodaeth</p> <p>Dehongli polisïau proffesiynol cenedlaethol o fewn maes arbenigol</p>	<p>Mae natur swydd ymarferydd ymgynghorol yn gofyn am bortffolio o ddyddu a datblygiad gydol ei yrfa. Mae'n rhaid i ymarferydd ymgynghorol feddu ar radd meistr o leiaf. Yn ychwanegol, mae'n rhaid iddo fod wedi cyhoeddi gwaith ymchwil neu fod â doethuriaeth neu'n gweithio tuag at hynny</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth broffesiynol a sefydliadol 	<p>Dangos arweinyddiaeth, arloesedd ac annibyniaeth sylweddol mewn cyd-destunau gwaith arloesol ac sy'n gofyn datrys problemau sy'n cynnwys sawl ffactor rhyngweithiol</p> <p>Annibyniaeth broffesiynol sylweddol a gweithredu fel adnodd arbennig</p> <p>Dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu strwythurau a phrosesau sefydliadol er mwyn diwallu anghenion dinasyddion yn y ffordd orau</p> <p>Hwyluso'r broses o ddatblygu rhinweddau arweinyddiaeth a sgiliau rheoli mewn eraill</p> <p>Cynnig arweiniad er mwyn dylanwadu ar arweiniad strategol a ffyrdd effeithiol o weithio ar draws timau a ffiniau proffesiynol a sefydliadol</p> <p>Cynorthwyo timau wrth iddynt ddatblygu drwy sefydlu a chynnal rhwydweithiau a thrwy rannu gwybodaeth</p> <p>Cynnig arweiniad cryf ac effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol gan ganolbwyntio ar wella ansawdd a rhagoriaeth mewn gwasanaeth</p> <p>Monitro a dangos sut mae targedau'r sefydliad yn cael eu hadlewyrchu yn ei amcanion ei hun ac eraill</p> <p>Cychwyn cymunedau/rhwydweithiau ymarfer er mwyn lleadaenu adnoddau a phrosiectau ymarfer</p> <p>Dangos gallu i reoli ei lwyth gwaith ei hun ac eraill yn y maes gwasanaeth</p>	<p>Sicrhau bod pob aelod staff yn eu maes cyfrifoldeb yn cyflawni i'r safonau uchaf</p> <p>Yn atebol dros ddarparu un neu ragor o wasanaethau sy'n hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau ei hun ac eraill mewn perthynas â phroffesiynoldeb, iechyd a llesiant yn y gweithle</p> <p>Cadw cyllideb ar gyfer un neu ragor o wasanaethau</p> <p>Gwneud atgyfeiriadau uniongyrchol ar gyfer dinasyddion a'u derbyn, asesu anghenion unigolion a defnyddio arbenigedd a dulliau cydweithredu rhyngasiantaethol trawsffiniol er mwyn diwallu anghenion dinasyddion yn y ffordd orau</p> <p>Gweithredu fel eiriolwr dros gynnwys dinasyddion yn y gymuned, cydgyhyrchu â nhw a'u grymuso</p> <p>Cynnig arweiniad effeithiol a bod yn esiampl sy'n ysbrydoli a chynnal ymroddiad cydweithwyr ac sy'n grymuso eraill</p> <p>Gweithredu fel adnodd arbennig ar gyfer gofal a phenderfyniadau'n ymwneud â dinasyddion</p> <p>Cyfrannu at adolygiad strategol o effeithiolrwydd clinigol adnoddau a'r dull o'u rheoli</p> <p>Gweithio ar y cyd ar draws ffiniau er mwyn datblygu polisïau, canllawiau a strategaethau perthnasol a chodi ymwybyddiaeth ohonynt, a llywio newidiadau yn lleol ac yn genedlaethol</p> <p>Nodi cyfleoedd i ddatblygu a dylanwadu ar bolisïau a chanllawiau yn genedlaethol a gweithredu ar hynny</p> <p>Cydgysylltu a dirprwyo gwaith ac adolygu perfformiad pobl</p> <p>Cynllunio, datblygu, monitro ac adolygu prosesau recriwtio, adleoli a rheoli pobl</p>	<p>Craffu ar arferion cymdeithasol a pherthnasoedd ac adlewyrchu arnynt, ac arwain camu i'w newid</p> <p>Yn gallu herio strwythurau presennol a nodi rhwystrau sefydliadol a phroffesiynol sy'n llesteirio/cyfyngu ar wasanaethau a darparu atebion i'w goresgyn</p> <p>Gweithredu fel hyfforddwr a mentor i amrywiaeth eang o staff</p> <p>Cynllunio a rheoli prosiectau uwch</p> <p>Rheoli cyllid</p> <p>Asesu effaith</p> <p>Datblygu achos busnes sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau</p> <p>Adrodd yn effeithiol amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau cymhleth</p> <p>Yn barod i ddefnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol a gwybodaeth am ymarfer sy'n arbenigol iawn i feddwl, i gasglu a rhannu gwybodaeth, datrys problemau a gwneud penderfyniadau</p> <p>Asesu sefyllfaoedd a nodi prif achos problem gymhleth mewn amgylcheddau anghyfarwydd, cymhleth na ellir eu rhagweld ac sydd â sawl ffactor rhyngweithiol</p> <p>Arwain a gweithredu strategaethau a pholisïau yn lleol, yn genedlaethol ac yn broffesiynol</p> <p>Dehongli gwybodaeth, ystadegau a data gwaith ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd</p> <p>Bod yn bennaf gyfrifol am reoli agweddau allweddol ar brosesau newid cymhleth</p> <p>Herio polisïau, ymarfer a methiannau yn y system</p> <p>Dangos ei fod yn cymhwyso gwybodaeth a'r meysydd gwybodaeth sydd angen eu trosglwyddo i eraill er mwyn cyflawni nodau'r sefydliad</p> <p>Blaenoriaethu a rheoli gwaith parhaus gwasanaethau a/neu brosiectau</p>	<p>Gwerthuso gwasanaethau (archwilio, ymchwil, adolygu)</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Addysg (hwyluso dysgu)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu'r amgylchedd dysgu 	<p>Cyfrannu at ddatblygiad strategol myfyrwyr, staff a defnyddwyr gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol</p> <p>Gwella ymarfer gofal iechyd drwy ddatblygu a darparu cwricwlwm ac addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth</p> <p>Hybu ffyrdd ysgogiadol o ddylanwadu ar ddysgu am bobl fel bodau galwedigaethol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl</p> <p>Defnyddio ffyrdd arloesol o gasglu, cyfuno a rhannu gwybodaeth, a gweithredu fel adnodd ar draws y sefydliad</p> <p>Gwerthuso effaith ymyriadau addysgol/hyfforddi</p> <p>Dangos tystiolaeth o lwyddo'n barhaus mewn maes cyfrifoldeb academaidd, proffesiynol neu weinyddol sylweddol</p> <p>Darparu tystiolaeth bod ymyriadau addysgol arbenigol yn seiliedig ar waith ymchwil cyfredol</p>	<p>Yn gyfrifol am y gwaith cyffredinol o ddarparu rhaglenni addysgu a hyfforddi</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu, darparu a gwerthuso rhaglenni addysgol, gan weithio ar y cyd er mwyn sicrhau cyfleoedd dysgu priodol yn yr amgylchedd clinigol</p> <p>Arwain y gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymyriadau addysgol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol mewn ymateb i bolisiau a strategaethau</p> <p>Cyfathrebu gweithgareddau academaidd, gwaith ymchwil a datblygiadau newydd er mwyn helpu i integreiddio ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr amgylchedd dysgu</p> <p>Cyfrifoldeb dros hwyluso a hyrwyddo diwylliant dysgu yn y sefydliad, gan alluogi eraill i ddatblygu i'w llawn potensial</p> <p>Dangos ei fod yn ymwneud â chorff proffesiynol yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol</p>	<p>Mae'n asesu sgiliau, dadansoddi'n feiriadol ac yn cyfuno gwybodaeth er mwyn gwella'r gwaith o ddarparu gofal ac yn annog eraill i wneud hyn</p> <p>Creu cyfleoedd i ysgogi eraill i ddysgu, a datblygu eu sgiliau addysgu ac asesu ar draws y sefydliad</p> <p>Llywio strwythuro a diwylliant y sefydliad er mwyn sicrhau addysg a hyfforddiant parhaus ar gyfer mentoriaid ac aseswyr</p> <p>Hyrwyddo a hwyluso amgylchedd dysgu gweithredol a chadarnhaol er mwyn galluogi eraill i gyrraedd eu potensial, yn benodol drwy annog a chefnogi ymarfer myfyriol</p> <p>Cychwyn prosesau goruchwyllo/hyfforddi medrus ar gyfer unigolion eraill a darparu'r adnodd hwnnw</p> <p>Dylanwadu ar a gweithredu strategaeth ddysgu a datblygu'r sefydliad mewn partneriaeth â phrif randdeiliaid</p> <p>Tystiolaeth o'r defnydd effeithiol o strategaethau marcio ar gyfer astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig</p> <p>Herio difaterwch a gweithredoedd nad ydynt er lles gorau dinasyddion</p>	<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn sefydliadau cymhleth</p> <p>Datblygiad eraill</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Tystiolaeth, ymchwil a datblygu</p> <p>• Troi tystiolaeth yn ymarfer</p>	<p>Creu a dehongli gwybodaeth newydd drwy waith ymchwil gwreiddiol neu ysgoloriaethau uwch arall o ansawdd a fydd yn bodloni mewn adolygiadau gan gymheiriaid</p> <p>Annog a chynorthwyo gyda'r gwaith o ledaenu ymarfer da, gan arwain drwy esiampl drwy geisio cael gwaith wedi'i gyhoeddi a chynorthwyo eraill i gyhoeddi a lleadaenu canlyniadau gwaith prosiect er mwyn gwella'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr ac er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu strategaeth ymchwil Proffesiynau Perthynol i lechyd</p> <p>Gweithredu fel model-rôl er mwyn datblygu diwylliant ymchwil cadarnhaol yn y gymuned Proffesiynau Perthynol i lechyd</p> <p>Cael ei adnabod a'i enwi gan eraill fel ysgolhaig</p> <p>Dangos cynigion ymchwil effeithiol sydd wedi ennill gwobrau</p> <p>Chwilio am gyfleoedd i greu swyddi cynorthwydd ymchwil neu ysgoloriaethau ymchwil doethuriaeth</p> <p>Dangos ei fod yn chwilio am gyfleoedd ymchwil, cyhoeddi a gwaith ymgynghori wedi'i ariannu</p>	<p>Ymchwilio, creu, cynllunio a gweithredu prosiectau sy'n arwain at wybodaeth newydd ac atebion newydd i weithdrefnau</p> <p>Cyfrannu at ganllawiau lleol a chenedlaethol ar gyfer ymarfer clinigol, yn seiliedig ar dystiolaeth/ymchwil gorau</p> <p>Hybu datblygiad theori o ymarfer ac ymarfer o theori</p> <p>Sicrhau bod y gwasanaethau ansawdd uchel i ddinasyddion yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael</p> <p>Nodi bylchau yn y sail dystiolaeth a chyfathrebu canfyddiadau i gymunedau polisi ac ymchwil clinigol priodol</p> <p>Cydweithredu â phartneriaid ymchwil priodol a meithrin cysylltiadau strategol gydag arweinyddwyr fforymau ymchwil a rhaglenni ymchwil prifysgolion</p> <p>Cychwyn, hwyluso a chynnal gwaith ymchwil o ansawdd uchel, gan weithredu fel prif ymchwilydd lle y bo'n briodol</p> <p>Ymwneud ag archwiliadau cymhleth</p> <p>Cwblhau gwaith ymchwil sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion neu broblemau yng nghyd-destun ymarfer</p> <p>Sicrhau cyllid allanol i gynorthwyo gyda gweithgareddau ymchwil</p> <p>Ysgrifennu cynigion ymchwil ar gyfer ffynonellau cyllid sylweddol</p>	<p>Creu syniadau ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer ac sy'n dylanwadu ar waith ymchwil ac agenda datblygu'r sefydliad</p> <p>Deall dulliau ymchwil uwch a chynorthwyo gyda'u defnydd</p> <p>Deall cyfrifoldebau prif ymchwilydd, gan gynnwys swyddogaethau a phrosesau pwyllgorau moesegol ac ymchwil</p> <p>Ysgrifennu'n feirniadol, gan gynnwys dadansoddi, cyfuno a dehongli'r sail dystiolaeth er mwyn sicrhau bod yr ymarfer yn seiliedig arno</p> <p>Sefydlu polisiau priodol a sicrhau cymorth ar gyfer gweithgareddau ymchwil clinigol a glynu at brosesau llywodraethu gwaith ymchwil</p> <p>Cychwyn/cydgysylltu rhaglenni ymchwil lleol/rhanbarthol/rhyngwladol</p> <p>Rhoi cyflwyniadau llwyddiannus mewn cynadleddau lleol/rhanbarthol/rhyngwladol fel prif siaradwr</p> <p>Dangos proffil cenedlaethol/rhyngwladol fel prif siaradwr</p> <p>Cyhoeddi adroddiadau'n seiliedig ar waith ymchwil mewn prif gylchgronau</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu theori yn ei faes astudio ei hun</p> <p>Goruchwilio myfyrwyr doethuriaeth</p> <p>Gweithredu fel ymchwilydd annibynnol neu'n ymwneud â gweithgareddau academiaidd a fydd yn cyfrannu at ddatblygu corff o wybodaeth sy'n berthnasol i'w proffesiwn</p>	<p>Ymchwil er mwyn cynorthwyo'r sefydliad i ddatblygu</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
Datblygu gwasanaethau strategol	<p>Gwneud penderfyniadau strategol yn seiliedig ar syniadau newydd a chymhleth</p> <p>Cwblhau rhyngweithiau gweithredol gyda'r gallu i wneud penderfyniadau strategol mewn amgylchedd cymhleth</p> <p>Arwain a chydweithredu ar y gwaith o ddatblygu protocolau yn seiliedig ar dystiolaeth</p> <p>Arwain y gwaith o gychwyn a datblygu gwasanaethau traws-ddisgyblaethol anaf gwaith rhyngasiantaethol sy'n cyfrannu at safonau, canllawiau ac archwiliadau ambroffesiynol</p> <p>Datblygu diwylliant sy'n gwella ansawdd</p> <p>Meddwl yn strategol wrth werthuso ei weithredoedd strategol ei hun yn erbyn nodau strategol y sefydliad</p>	<p>Datblygu a llywio polisiau a datblygiadau mewn gwasanaethau</p> <p>Cyfeirio a llywio darpariaeth comisiynu/gwasanaethau</p> <p>Cyfrannu at waith cynllunio strategol ac arwain y gwaith o weithredu polisiau a strategaethau cenedlaethol perthnasol yn lleol</p> <p>Gwerthuso darpariaeth gwasanaethau clinigol er mwyn pennu anghenion, gan arwain at ddatblygu gwasanaethau newydd a/neu eu hailgynllunio os dyna a nodir</p> <p>Casglu a chyflwyno gwybodaeth ystadegol ar gyfer dibenion archwilio a defnyddio gwybodaeth archwilio i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth</p> <p>Defnyddio egwyddorion meddyginiaeth darbodus, ymchwilio i gyfleoedd i wella gwasanaethau clinigol a gwella cost-effeithiolrwydd gwasanaethau, gan weithio ar y cyd er mwyn dylanwadu ar y broses o ddyrannu adnoddau er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth yn y ffordd orau</p> <p>Yn rhan weithredol o weithredu newid/newidiadau yn unol â thystiolaeth newydd a/neu fwrriad strategol</p>	<p>Dadansoddi, gwerthuso a chyfuno syniadau a phenderfyniadau strategol newydd a chymhleth yn feiriadol yn seiliedig ar y prosesau hyn</p> <p>Cyfathrebu gwybodaeth arbenigol am ddatblygiadau amrywiol y gwasanaeth yn y sefydliad ac ar draws darparwyr eraill</p> <p>Ymwneud â gwaith cynllunio a gweithredu gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau arbenigol</p> <p>Adolygu a gwella safle strategol y sefydliad</p> <p>Sefydlu strategaethau er mwyn llywio gwaith y sefydliad</p> <p>Hyrwyddo'r sefydliad a'i wasanaethau ymhlith rhanddeiliaid</p> <p>Cynnal cyfeiriad, polisiau a strategaethau tan maen nhw'n rhan annatod o'r diwylliant gan ysbrydoli eraill gyda gwerthoedd a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a chydabod traddodiadau a chefnidir</p>	<p>Ymchwil i gynorthwyo gyda datblygiadau proffesiynol strategol a datblygiadau strategol y sefydliad</p>

Cyfarwyddwr gwasanaethau

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 9

Byddai disgwyl i ddeilydd y swydd fynd y tu hwnt i ffiniau therapi galwedigaethol a gallai'r cyfrifoldebau gynnwys:

- rôl lefel cyfarwyddwr mewn llywodraeth leol (byddai'r rôl yn uwch na rôl y rheolwr tîm)
- gwaith rhanbarthol ac integreiddio gwasanaethau
- arloesi a datblygu therapi galwedigaethol yn y cyd-destun ehangach
- arwain, llywio a dylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer rhanbarth benodol
- yn atebol dros y gyllideb ar gyfer adnoddau penodol
- yn atebol i aelodau etholedig am ddarparu gwasanaethau ac yn gyfrifol am y gwasanaethau hynny
- swyddog atebolrwydd dros lywodraethu, perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.

Fframwaith gyrfaoedd Lefel 9

Mae unigolion sydd ar Lefel 9 yn cymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol uwch wedi'i datblygu'n sylweddol dros amrywiaeth eang o swyddogaethau clinigol, gwyddonol, technegol a/neu reoli. Dyma'r aelodau staff sydd â'r prif gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ac atebolrwydd ar alwad llawn.

Maen nhw'n atebol dros sicrhau bod gan bob aelod staff yn eu maes cyfrifoldeb y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf a hwyluso'r broses o reoli gwybodaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau ymarfer a sicrwydd ansawdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae pobl sy'n gweithio ar Lefel 9 angen y wybodaeth reng flaen uchaf un y maes gwaith a rhwng y meysydd gwaith. Byddant yn gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau i boblogaeth ar lefel uchaf y sefydliad (Sgiliau Iechyd).

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Ymarfer proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion • Crebwyll proffesiynol a gwneud penderfyniadau 	<p>Cyfathrebu'r weledigaeth ar draws y sefydliad, gan gymell ac ysbrydoli eraill</p> <p>Rhoi arweiniad i eraill am faterion llywodraethu sy'n ymwneud â materion moesegol a chyfreithiol</p> <p>Arloesi a datblygu therapi galwedigaethol a'i symud ymlaen yn y cyd-destun ehangach</p>	<p>Rhoi arweiniad proffesiynol, clinigol ar draws y sefydliad er mwyn lleihau'r risg a gostwng y posibilrwydd o ddigwyddiadau niweidiol</p> <p>Ymgymryd â rôl arwain y sefydliad yn broffesiynol yng nghyd-destun y fframweithiau proffesiynol a chyfreithiol cyfredol, gan barhau'n atebol dros eich ymarfer eich hun</p>	<p>Gallu cyfleu ac arwain y gwaith o roi'r strategaeth ar waith yn yr ymarfer, gan ddangos creadigrwydd a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol</p> <p>Gweithredu fel model-rôl a chreu diwylliant sy'n hyrwyddo gofal sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n canolbwyntio ar unigolion</p> <p>Dangos gwybodaeth am ran cymunedau ac eraill yn y gwaith o wella iechyd a llesiant y boblogaeth, a lleihau anghydraddoldebau</p> <p>Gallu i ddehongli ac arwain y gwaith o weithredu canllawiau a strategaethau sy'n llywodraethu agweddau cyfreithiol a moesegol ar y gwasanaeth</p> <p>Defnyddio gwybodaeth arbenigol am lywodraethu clinigol, materion cyfreithiol a moesegol, a chodau ymddygiad proffesiynol i wneud penderfyniadau sefydliadol cymhleth</p>	<p>Doethuriaeth broffesiynol</p> <p>Grwpiau a fforymau Cymru/ y DU</p> <p>Datblygu tîm gweithredol</p> <p>Cyfarfodydd grwpiau cymheiriaid</p>

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
<p>Arweinyddiaeth a rheolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith tîm a datblygiad • Arweinyddiaeth proffesiynol a sefydliadol 	<p>Gweithredu'n annibynnol, rheoli adran, datblygu a dehongli polisiau'r sefydliad ac effaith perfformiad y tîm gan ddefnyddio gwybodaeth am y gweithlu</p> <p>Darparu arweinyddiaeth weithredol ar draws y sefydliad</p> <p>Cyfrannu at osod nodau'r sefydliad sy'n cael eu hadlewyrchu yn ei amcanion ei hun, amcanion eraill ac amcanion y sefydliad</p> <p>Gweithio'n gydweithredol ar draws ffiniau'r sefydliad, gan arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu a chodi ymwybyddiaeth o bolisiau, canllawiau a strategaethau perthnasol</p> <p>Dylanwadu ar newidiadau yn lleol ac yn genedlaethol</p> <p>Nodi cyfleoedd i lywio a datblygu polisiau a chanllawiau a gweithredu ar y cyfleoedd hynny</p> <p>Rhannu arbenigedd Proffesiynau Perthynol i lechyd y GIG gyda sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau'r GIG</p>	<p>Manteisio i'r eithaf ar botensial y tîm drwy ddefnyddio methodoleg a gydnabyddir ar gyfer cynllunio'r gweithlu saf thrwy gymysgu sgiliau</p> <p>Arwain y gwaith o gynnal adolygiadau strategol o effeithiolrwydd clinigol gwasanaethau</p> <p>Datblygu ac arwain archwiliad a dulliau datrys problemau ar gyfer Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn dull moesegol, myfyriol sy'n seiliedig ar dystiolaeth</p> <p>Sicrhau bod gwasanaeth clinigol rhagorol o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu yn ei waith ei hun ac ar draws gwasanaethau iechyd</p> <p>Yn atebol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lywodraethu clinigol a chorfforaethol • cynllunio gweithredol a chynllunio'r gweithlu • datblygu systemau cyfathrebu effeithiol ar gyfer y sefydliad <p>Arwain a rheoli newidiadau ar lefel sefydliadol</p> <p>Monitro effeithiolrwydd ac effeithiau newidiadau</p>	<p>Gallu i reoli timau'n strategol drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd</p> <p>Defnyddio gwybodaeth arbenigol am gyfraniad unigryw therapi galwedigaethol wrth hyrwyddo iechyd a llesiant galwedigaethol i bawb</p> <p>Defnyddio dulliau strategol y sefydliad i gynyddu effeithiolrwydd ac allbynnau'r tîm</p> <p>Ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd a chyd-destunau amrywiol ac adrodd arnynt</p> <p>Mynd ati'n rhagweithiol i ragweld risg a'i reoli</p> <p>Dangos creadigrwydd a gweledigaeth</p> <p>Dehongli gwybodaeth, ystadegau a data ymchwil yn ymwneud ag iechyd ar lefel uwch</p> <p>Ysgrifennu i gyhoeddiad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol</p> <p>Dangos sgiliau arbenigol yn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rheoli newid • arweinyddiaeth • dylanwadu a llobio'n genedlaethol • cyfathrebu a chysylltiadau rhyngpersonol <p>Cyflwyno gwybodaeth i gynulleidfaoedd eang ac amrywiol</p>	

Colofnau ymarfer	Nodweddion	Cyfrifoldeb y rôl	Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad	Datblygiad addysgol
Addysg (hwyluso dysgu) <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu, addysgu ac asesu • Creu amgylchedd dysgu 	<p>Creu syniadau ar gyfer gwella cyfeiriad addysgol y sefydliad a'u rhoi ar waith</p> <p>Creu ethos yn y sefydliad sy'n meithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol a gwelth gwerth ynddo</p>	<p>Rhoi arweiniad strategol a dylanwadu'n strategol er mwyn helpu'r sefydliad i ddysgu ac asesu</p> <p>Yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad cymhwyso safonau a chanllawiau'n briodol</p>	<p>Gallu i gymhwyso safonau ar gyfer sicrhau ansawdd y profiad addysgol</p> <p>Gweddnewid ymarfer gofal iechyd drwy ddatblygiadau addysgol a datblygiadau'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddarparu hynny</p> <p>Cychwyn gwaith cydweithredol â darparwyr addysg ac arwain y gwaith hwnnw</p> <p>Arwain yn strategol er mwyn creu diwylliant o ddysgu yn y sefydliad</p>	
Tystiolaeth, ymchwil a datblygu <ul style="list-style-type: none"> • Troi tystiolaeth yn ymarfer 	<p>Cyfrannu at safbwynt galwedigaeth a therapi galwedigaethol mewn perthynas â datblygu strategaeth y sefydliad cyfan ar gyfer ymchwil a datblygiadau</p> <p>Darparu cyfleoedd ar gyfer aelodau priodol o'r gweithlu i gymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer</p>	<p>Monitro effaith strategaeth ymchwil Proffesiynau Perthynol i lechyd</p> <p>Cydweithio â chydweithwyr uwch o brifysgolion partner er mwyn datblygu cais i rannu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau a rhaglenni gwaith cenedlaethol</p>	<p>Cymhwyso gwybodaeth uwch ar gyfer ymchwil llywodraethu</p> <p>Datblygu diwylliant ymchwil yn y gymuned Proffesiynau Perthynol i lechyd drwy weithredu fel model-rôl, sefydlu polisiau priodol a sicrhau cymorth ar gyfer gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar weithgarwch clinigol, yr unigolyn a'r alwedigaeth ar draws y sefydliad</p>	

Cyfeiriadau

Safonau Iechyd a Gofal y Cyngor Proffesiynol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (Saesneg yn unig)

Ar gael yn: www.hcpc-uk.org/registrants/cpd/standards/

Fframwaith Datblygu Gyrfaoedd Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol (RCOT 2017) (Saesneg yn unig)

Ar gael yn: www.rcot.co.uk/practice-resources/learning-zone/career-development-framework

Llywodraeth Cymru/GIG (2016) Moderneiddio Gyrfaoedd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yng Nghymru, fframwaith ôl-gofrestru (Saesneg yn unig)

Ar gael yn: gov.wales/docs/phhs/publications/160926postregistrationframeworken.pdf

Diolchiadau

Gyda diolch i Dr Alison Strode, Prif Gynghorydd Therapyddion, Llywodraeth Cymru, a Ruth Crowder, Swyddog Polisi, â Dr Stephanie Tempest, Rheolwr Addysg ar gyfer (Datblygiad Proffesiynol), Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol, am eu cyfraniadau i ddatblygu'r fframwaith hwn.

